# DINESYDD
# Mai

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1981

RHIF 77


# YR ŴYL FEITHRIN

Dyma ni ar drothwy Gŵyl Feithrin Genedlaethol arall, Mehefin 6ed - 13eg ac mae'r Mudiad trwy Gymru benbaladr yn torchi llewys yn eiddgar ar gyfer yr achlysur.

Mae arwyddocad arbennig i'n dathliadau gan fod y Mudiad yn dathlu ei ddegfed penblwydd eleni; fe'i sefydlwyd yn ystod Eisteddfod Bangor ym 1971. Yr adeg hynny, rhyw 70 o gylchoedd oedd ac erbyn hyn mae'r nifer wedi cynyddu i oddeutu 350. Yn ychwanegol at hyn yr ydym fel Mudiad wedi dechrau sefydlu cylchoedd 'Mam a'i Phlentyn' ar gyfer y plant hynny sy'n rhy ifanc i fynychu Cylch Meithrin swyddogol. Mae'n ofynnol i o leiaf un rhiant fod yn bresennol yn y sefyllfa yma oblegid ni ellir gadael plentyn dan 2½ allan o ofal rhieni. Yr ydym yn ceisio paratoi darpariaeth syml ar gyfer y grwp yma a chan fod cymaint o'r rhieni a'r plant yn ddi-Gymraeg mae'n gyfle ardderchog i gyflwyno sŵn yr iaith iddynt. Bydd trefniadaeth fel hyn yn gyfle hefyd i sicrhau dyfodol y cylchoedd meithrin yn eu tro.

Mae'n briodol inni fel Mudiad gydnabod cymorth y Swyddfa Gymreig. Busnes dyrys yw grantiau a'u hamodau ond dyma fraslun o'r grantiau dderbyniwyd gydag eglurhad syml. Derbyniwyd y grant cyntaf o £5,000 yn 1973/74 ac roedd yn rhaid i hwn gynnal holl fframwaith y Mudiad. Cododd hwn i £60,000 erbyn 1977/78 ond roedd un o amodau'r grantiau yn ein blino'n fawr sef na ellid trosglwyddo dim ohono at gefnogaeth Cylchoedd Meithrin unigol. Grant at weinyddu yn unig ydoedd; cynnal swyddfa a staff.




Unionwyd y sefyllfa yma yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978. Yno, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd dros Gymru, Mr. John Morris, A.S., ei fod am roi £20,000 arall i'r Mudiad yn ychwanegol at y grant at weinyddu. Diben y grant hwn oedd hybu'r iaith ar lawr gwlad trwy'r cylchoedd unigol, a byth oddi ar hynny rydym wedi derbyn dau grant o'r Swyddfa Gymreig, y naill at weinyddu a'r llall i'w drosglwyddo i'r cylchoedd. Ar gyfer 1981/82 saif y rhain

i dud. 13

# CYWIRDEB IAITH

YSGOLHEIGION ARDAL CAERDYDD YN CYNHYRFU :
MAMAU'N CAEL EU HANNOG I'W CEFNOGI.

Mae llawer o siarad wedi bod yn y Wasg Genedlaethol yn ddiweddar am gywirdeb iaith ac fel mae'n digwydd, ysgolheigion o Gaerdydd sy'n arwain y drafodaeth. Mae Doctor Ceinwen Thomas yn teimlo'n gryf iawn bod Cymraeg Byw yn tanseiliogwir iaith lenyddol y Gymraeg ar eigorau a Gilbert Ruddock yn ategu hyn yn gryf yn y Faner gyfredol. Yn yr un rhifyn mae Doctor Iorwerth Peate yn dweud "Erbyn heddiw clywiryfratiaith Gymraeg mewn idiomau Saesneg", ac mae'n gresynu clywed darlledwyr yn anwybyddu ffurf negyddol y frawddeg yn llwyr.

Beth petaem ni, famau Caerdydd, y mis hwn, yn enwedig wrth ddathlu deng mlynedd cychwyn y Mudiad Meithrin yn ymateb i'w her ac yn dechrau o ddifrif i gywirio'n hiaith ni ein hunain a iaith ein plant trwy ddiogelu i ddechrau ffurf y frawddeg negyddol yn Gymraeg. Felly yn hytrach na

Mae e ddim yno dweud

'Dyw e ddim yno.

Mae Mari ddim yn hoffi hwn

'Dyw Mari ddim yn hoffi hwn.

Roedd hi ddim yn braf

Doedd hi ddim yn braf.

O'dd mam ddim yn siarad a hi.

Doedd mam ddim yn siarad a hi.

Mae'r Doctor Iorwerth Peate yn hollol iawn. Hyd yn oed yn y frawddeg syml negyddol gwnawn wallau ac nid dim ond pobl a godwyd yn y ddinas sy ar fai ond pobl sy'n dod o froydd llawer mwy Cymreig sy wedi clywed y tafodieithoedd yn eu purdeb.

Un gwall arall sy'n fy synnu i'n bersonol dro ar ol tro a hyn yn cael ei ddweud gan bobl na chlywodd eu mamgu a'u tadcu o'r wlad yn ei ddweud rwy'n gwybod:

Fi'n mynd a fi wedi dweud popeth beth bynnag.

yn hytrach na :

'Wy'n mynd a 'wy wedi dweud popeth beth bynnag.

neu ba bynnag ffurf ar dafodiaith sy'n naturiol.

Sut mae'n bosibl dechrau brawddeg yn y Gymraeg nad yw'n frawddeg bwysleisiol gyda rhagenw. Mae hyn yn rhemp hefyd a chlywais raddedig yn y Gymraeg ar 'Hawl i Holi' yn defnyddio'r ffurf hon ar frawddeg yn hollol ddigywilydd.

Wrth ddathlu deng mlynedd Ysgolion Meithrin, dewch inni ail-gydio yn yr hyn oedd yn gywir yn ein tafodieithoedd a chywiro iaith ein gilydd yn enwedig o fewn ein teuluoedd.

# Y TABERNACL

Rhai wythnosau yn ol bellach bu'r eglwys uchod yn dathlu agor y Tabernacl cyntaf trwy gynnal wythnos o gyfarfodydd amrywiol o fore Sadwrn, Mawrth 28ain i'r Sul, Ebrill 5ed.

Byddai angen rhifyn cyfan o'r Dinesydd i gyfeirio at bob digwyddiad a chyfraniad felly dyma grynodeb yn unig o'r gweithgarwch!

Yr arddangosfa:
Robin Gwyndaf oedd yn gyfrifol am drefnu'r arddangosfa yn y festri. Gwledd i'r llygad oedd craffu ar yr hanes ers 1821 trwy gyfrwng lluniau, adroddiadau a llyfrau i enwi ond rhai o'r ffynonellau amrywiol. Cawsom gyfle gwych i atgoffa ein hunain am weithredoedd y tadau a'n blaenoriaid yn y rhan fechan hon o'r winllan fawr.

Cyfarfodydd Pregethu:
Y gweinidog ifanc, y Parchedig Peter Thomas, Rhydwilym a'r Gelli oedd y cennad gwadd a'i dair neges yn amserol ac yn briodol i'r achlysur o ddathlu. Ar brynhawn Sul aethom megis pererinion i gapel hynafol Croesyparc, mam eglwys y Tabernacl, i oedfa wedi ei threfnu gan Robin Gwyndaf. Yno fe gafwyd cyfraniadau gan nifer o aelodau'r Ysgol Sul yn cynnwys plant ac oedolion a Robin Gwyndaf ei hun yn traddodi anerchiad. Doedd dim angen organydd nos Sul oherwydd roedd y canu dan ofal y gerddorfa (rhyw 20 o ieuenctid yr eglwys), ac Arwel Hughes yn eu harwain a'r gynulleidfa hithau yn canu'r emynau.

Noson amrywiol:
Ar nos Fawrth roedd y festri yn orlawn i gyngerdd amrywiol wedi ei threfnu gan Gwen Davies a David Rees. Amcan y noson oedd diddanu'r gynulleidfa a chasglu swm sylweddol o arian i Ganolfan Gwaith yr Anabl (Spastics) yn Sully. Gwireddwyd y ddwy nod. Hywel Gwynfryn a lywiodd y noson yng nghwmni Elena Rees a Huw Thomas, Rhisiart Arwel, Llinos Williams, grwp Caspach a Chor yr Aelwyd.

Oedfa nos Iau:
Y Parchedig Vaughan Walters, newydd ddychwelyd o'i daith i'r India ac o amgylch y byd, oedd y siaradwr gwadd yn y cyfarfod hwn. Bu Mr. Walters yn genhadwr gyda'r B.M.S. yn India yn y cyfnod 1938-53. Cafodd ef a'i wraig yn ddiweddar gyfle i ymweld a'i hen faes ac fe gawsom ni'r gwrandawyr ddarlun byw iawn o waith yr eglwys ddoe a heddiw yng ngwlad eang India.

Gwasanaeth y Plant, Cinio yn y festri a Chymundeb.
Daeth yr wythnos brysur hon o ddathlu i ben ar y Sul cyntaf yn Ebrill gydag oedfa fisol y plant yn y bore a chynulleidfa fwya'r wythnos o ddigon yn bresennol ac yna yn dilyn cinio i bawb yn y festrioedd. Mrs. Eiriona Roberts oedd yn gyfrifol am drefniadau'r bwyd.
Yn oedfa'r hwyr cawsom gyfle newydd i ddathlu a diolch wrth fwrdd y Cymun gyda'n Gweinidog y Parchedig Raymond Williams yn cychwyn ar ei bymthegfed blynedd fel gweinidog yn ein plith. Canwyd 6 o emynau awduron yn gysylltiedig a'r Tabernacl: Dafydd William, D.R.Griffiths; T.H. Hughes; Charles Davies; Christmas Evans a Morgan Jones. Wedi canu'r emyn cyntaf aeth yr organ ar streic. Doedd dim cerddorfa ar gael y tro hwn felly fe drodd Huw Thomas yn bianydd am weddill y gwasanaeth!

Diweddglo
Ymlaen yr awn felly yn obeithiol i'r dyfodol anhysbys a'r ail ddegawd ar bymtheg eisoes wedi gwawrio yn hanes Eglwys y Tabernacl.

B A R B E C I W   H A F

I'w gynnal ar nos Wener,
Mehefin 19eg, am 7 o'r gloch,
yng Nghapel Llanilltern.
TWMPATH DAWNS, BWYD, MIRI, GWIN.
Yr elw at y Dinesydd.
Manylion yn y rhifyn nesaf.
Cadwch y dyddiad yn rhydd.

Cewch fwy o hanes y Cylchoedd Meithrin yn ein rhifynnau nesaf.

# GŴYL IFAN
# Mehefin 20, 1981

Peth amser yn ol gofynnwyd i mi gan rai o aelodau Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd egluro iddynt y rhesymau dros gynnal Gwyl Ifan. Felly, i geisio eglurhad o wyl sydd yn awr yn un o wyliau gwerin blaenllaw Cymru, dyma fi yn bathu ychydig eiriau. Cychwynwyd y peth yn ddigon diymhongar, gwacter ar ol i Wyl Cymdeithas Ddawns Werin Cymru symud o'r ddinas yn cael ei lenwi gan griw bychan iawn o ddawnswyr yn dawnsio ar hyd strydoedd y Fro. Dyna oedd ein huchelgais cynnar.

Penderfynwyd ar y dyddiad trwy ryfedd wyrth. Yn ddigon hwyr yn y flwyddyn i gael tywydd deche ac yn ddigon cynnar i beidio a gwrthdaro a gwyl y Gymdeithas Ddawns Werin. Setlo ar benwythnos y 25ain o Fehefin y tro cynta, heb yn iawn sylweddoli'r arwyddocad. Y cam nesa enwi'r Wyl ac wrth gwrs gan ein bod yn barod wedi penderfynnu dawnsio yn Nantgarw, syrthiodd popeth i'w le. Pam Nantgarw a beth yw arwyddocad Gwyl Ifan? Wel, yn Nantgarw y ganwyd Mrs. Margretta Thomas a gofiodd yr holl ddawnsfeydd a ddaw yn yr hyn a elwir yn gasgliad Nantgarw. Dyma nhw: Rali Twm Shon; Dawns y Pelau; Ffair Caerffili; Ceiliog y Rhedyn; Gwyl Ifan; Dawns Blodau; Y Gaseg Eira; Morfa Rhuddlan a Dawns y Marchog. Yn ol yr hanes roedd pentrefwyr yr ardal Groeswen, Nantgarw a Phentyrch yn dawnsio'r dawnsfeydd yma ar wahanol achlysuron trwy'r haf; pam a pha bryd, erthygl arall efallai. Ar ol penderfynu ar y dyddiad a sylweddoli bod Gwyl Ifan yn agos, y peth hawsaf oedd uno'r ddau. I'r rhai sy'n dal yn y tywyllwch, Ioan Fedyddiwr, yn ol rhai arbenigwyr yw nawdd sant dawnswyr gwerin. Ysgwn i sut siol oedd gyda Salome? Syrth ei dydd penodedig ar y 23ain o Fehefin.

Eleni daw rhyw 250 o ddawnswyr gwerin Cymru i ddathlu'r wyl yn Nantgarw. Gwyl i ddawnswyr yw, o bob safon. Nid oes rhaid i unrhyw un boeni am safon y llinellau a chywirdeb y stepio. Os yw'r don yn denu a'r ysbryd yn llawen cewch groeso gan y criw i hercio trwy 'Hoffedd' a morio trwy 'Meillionen', ar ddydd Sadwrn, Mehefin 20fed.

Oherwydd y galw am docynnau bu rhaid i ni symud o'n cyrchfan yn Nantgarw, sef o flaen y 'Cross Keys' i lawntiau ysblennydd Gwesty'r Dyffryn Ffrwd eto yn Nantgarw, ar y chwith ar y ffordd i Gaerffili o'r pentre. Mae yna ddigon o le yno i barcio.

Gyda llaw does dim rhaid i chi dalu i ddod i'r Dyffryn Ffrwd a bydd pawb yn casglu yno tua 3.30 y prynhawn. Gan fod cymaint yn awr yn dod i'r daplas fin nos, amhosib oedd ei chynnal yng Nghastell Caerffili eleni. Felly cynhelir taplas Gwyl Ifan eleni yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Daw'r Daplas ar ol y Wledd ac y mae bar hwyr i'r sychedig rai. Yn anffodus rhaid talu am y pethau da felly dyma'r costau:
Gwledd a Thaplas £4.50 y pen
Taplas yn unig, £1 y pen
Os oes gan unrhyw un ohonoch fwyn ddarllenwyr ddiddordeb ymgysylltwch a Einir Wyn Davies, 6 St. Fagan's Rise, Tyllgoed, Caerdydd (563457) neu Dai James, 29 Fairwater Grove West, Tyllgoed, Caerdydd (563989).

Dewch o brysur, cewch weld dawnswyr
Dwys o gwmpas, dewis gampwyr,
Difalch, ufydd, llawn llawenydd,
Hardda'u golwg ar bob gwylddydd.

# PYTIAU

TRO AR FYD AR DEULU'R BEASLEYS ETO.

Wyt ti'n cofio teulu'r Beasleys
Yn gwrthod talu'r dreth,
A gwyr Llanelli'n gofyn
'Y ffyliaid dwl, i beth?'

A nawr mae'r Beasleys yn gadael yr ardal. Syndod gennym glywed bod Mrs. Eileen Beasley yn ymddeol o'i gwaith fel aelod o'r Adran Gymraeg a Chyfieithydd Rhydfelen. Daeth Elidyr i Rydfelen gyntaf fel disgybl a lletyai yng Nghaerffili, gymaint oedd awydd y Beasleys i'r plant gael addysg Uwchradd Gymraeg. Erbyn i Delyth ddod i'r ysgol roedd Mrs. Beasley yn aelod o'r staff. Roedd hi'n ymuno ym mhob peth ac roedd ei sel a'i brwdfrydedd dros yr iaith yn ddi-ball. Dymunwn yn dda iddyn nhw wrth iddynt fwrw'u gwreiddiau mewn bro annwyl iawn iddyn nhw sef Henllan Amgoed.

Mae Coleg y Brifysgol, Caerdydd wedi ffurfio adran Gymraeg o "Canolfan Gwyddoniaeth, Mathemateg a Thechnoleg" er mwyn cynorthwyo athrawon yn eu gwaith o ddysgu pynciau gwyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg. Y Cadeirydd yw yr Athro Des Evans, Coleg y Brifysgol, Caerdydd a'r is-gadeirydd yw y Dr. Neville Evans, Arolygwr Ei Mawrhydi. Yn ogystal a threfnu ambell ddarlith gyffredinol mae pwyllgor yr Adran Gymraeg am ffurfio grwpiau o arbenigwyr yn y meysydd canlynol: Mathemateg, Ffiseg, Bywydeg, Cemeg a Daearyddiaeth. Gobeithia'r grwpiau arbennig hyn drafod trefnu gwerslyfrau a darparu adnoddau a chyfarpar ar gyfer athrawon a phlant ysgol. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno a'r grwpiau hyn neu, yn gyffredinol a gweithgareddau yr Adran, a fyddech mor garedig a chysylltu a'r ysgrifennydd, Dr. Ifor Delme Bowen, Adran Swoleg, Coleg y Brifysgol, Blwch Swyddfa'r Post 78, Caerdydd CF1 1XL.

# GWYNFOR EICH BYD!

TAIR PRIODAS YN NHEULU GWYNFOR YR HAF YMA.

Pob dymuniad da i

Rhian, nith Gwynfor, merch Alcwyn a Llywela Evans ar ei phriodas fis Ebrill a Gruffydd Olwyn Roberts sy'n Gyfrifydd.

Geraint, eu mab, a nai Gwynfor, sy'n priodi a Carys Hall Williams, sy'n dysgu yn Llanhari. Byddant hwy yn priodi ym mis Gorffennaf. Mae Carys yn ferch i Nia a Richard Hall Williams a fu mor weithgar ar bwyllgor Y Dinesydd.

Rhys, mab ieuengaf Gwynfor sy'n priodi a Caryl, sy'n cyflwyno 'Bilidowcar', fu'n aelod o 'Sidan' ac sy'n awr yn canu gyda 'Bando'. Mis Gorffennaf fydd y mis mawr yn eu hanes hwy.

Newyddion ardderchog a llongyfarchiadau'r Dinesydd iddynt. Fe fyddant i gyd yn ymgartrefu gyda ni yn ardal Y Dinesydd, h.y. yn Llandaf a Threcanna.

# ADDYSG FEITHRIN

CYLCH MEITHRIN CYMRAEG RHIWBEINA (1959-1981)

Agorodd y Cylch Meithrin Cymraeg cyntaf yng Nghaerdydd yn Festri Capel Heol y Crwys ym mis Mai 1951. Cylch Meithrin Rhiwbeina oedd yr ail gylch i'w agor a hynny ym mis Hydref 1959. Cadeirydd cyntaf y Pwyllgor Rhieni oedd Iwan Jones, Caerffili Rd. gyda Gwilym Roberts yn Ysgrifennydd ac Emyr Gwyn Jones yn Drysorydd. Daeth 21 o blant ynghyd ar y bore cyntaf o dan ofal Bethan Roberts (Radur) a Sally Hughes (Casnewydd). Yn y cyfarfod blynyddol yn Ebrill 1966 adroddwyd gan Valmai Evans yr athrawes ar y pryd, bod 48 o blant wedi eu cofrestru ar gyfer tymor yr haf - record! Yn 1959 dim ond ar un bore'r wythnos roedd y cylch ar agor ond erbyn heddiw mae'r cylch ar agor bob bore'r wythnos o naw tan hanner dydd dan arweiniad Mary Pryce. Mae cylch mam a'i phlentyn yn gysylltiedig a'r Cylch Meithrin ers mis Tachwedd 1976. Unarddeg o blant sy'n mynychu'r Cylch ar hyn o bryd ond mae gwedd lewyrchus ar y Cylch mam a'i phlentyn ac felly mae dyfodol y Cylch yn ddiogel!

Mae 19 o bobl wedi bod yn Gadeirydd y Cylch ers y dechrau. Eira Jenkins sy yn y gadair ar hyn o bryd; mae saith Trysorydd wedi dal y swydd, Elwyn Owen ydy'r Trysorydd presennol a dim ond un Ysgrifennydd, sef Gwilym Roberts. Mae dros 30 o famau wedi bod yn athrawesau yn y Cylch ers y dechrau.

Yn 1964 Cadeirydd y Cylch oedd Geraint Bowen ddaeth yn Archdderwydd Cymru wedyn. Bu Bethan Roberts yn un o'r athrawesau cyntaf yn Ysgrifenyddes gyntaf Mudiad Meithrin a bu Emyr Jenkins, Cadeirydd y Cylch yn 1970, yn Gadeirydd cyntaf M.Y.M. Ym mis Medi bydd Ysgrifennydd y Cylch yn dod yn Gadeirydd y Mudiad am y ddwy flynedd nesa.

Dros y blynyddoedd bu rhieni a charedigion y Cylch yn gefn i'r achos a deil y gefnogaeth a'r diddordeb yma hyd heddiw.

YSGOL FEITHRIN Y TYLLGOED :

Mae'r adar yn nythu a'r brain yn cario'r brigau i'r cangau yng Nghoed y Brain, Llandaf. Cor o leisiau persain ac amhersain. Cymanfa yn canu anthem feunyddiol a phe digwyddech glustfeinio ar y sgwrs yn rhif 12 wel, tŵr Babel, Y Pentecost neu'r Cenhedloedd Unedig, neu'r brain yn nythu yn y lolfa? Heb os, mae yno ieithoedd gwahanol. Tair, a'r tair yn cael eu harfer yn gyson. A ddaeth Dic Aberdaron yr ieithmon o Lyn i Goed y Brain? Naddo, Cymro a Ffrances a luniodd nyth a chael tri o blant, dau fachgen a merch, ac y mae'r ffordd a drefnwyd i sgwrsio a'i gilydd yn ddiddorol. Y plant yn siarad Ffrangeg a'u mam, siarad Cymraeg a'u tad, yna Saesneg a'u ffrindiau - ac yn rhugl yn y tair, a'r rhyfeddod yw eu bod yn neidio o un i'r llall fel symud o un donfedd i'r llall ar y radio.

Tair oed yw Carys ac y mae hi yn Ysgol Feithrin Y Tyllgoed a daw ei mam yno i ofalu yn ei thro, a phan fydd galw y ddwy yn siarad yn Ffrangeg a phawb arall yn derbyn y peth yn naturiol. Pam ydym ni yn ymddiheuro am siarad ein mamiaith ym mhresenoldeb rhai na ddeallant? Dowch chi i Ysgol Feithrin Y Tyllgoed i weld sut mae'r peth yn gweithio'n esmwyth a didramgwydd. Falle fod y brain yn trio nythu yng nghorn simne rhif 12 Rookwood Ave. ond nid eu crawcian hwy sydd ar yr aelwyd eithr tair iaith yn cydfyw a chyd-dyfu'n naturiol. Gwers i bawb - diolch i Mr. a Mrs. Elwyn Moseley am ddangos fod y peth yn gweithio.

YSGOL FEITHRIN PENTWYN

Mae'r Cylch Meithrin ym Mhentwyn mewn bodolaeth ers pum mlynedd bellach a hwn yw'r unig Gylch Meithrin yn Ne Morgannwg sy'n rhan o un Cylch Meithrin Cymdeithasol lle mae Cylchoedd Saesneg a Chymraeg yn rhan o'r un Gymuned. Gweinyddir y Cylch gan rieni Cymraeg a Saesneg, ac ar hyn o bryd rhed pob dim yn esmwyth iawn er na fu felly drwy'r amser! Bu gwrthwynebiad chwyrn i'r Cylch Cymraeg yn y dyddiau cynnar pan oedd rhif y plant yn isel yn y Cylch Cymraeg a rhestr aros am y cylchoedd Saesneg, ond trwy ymroddiad rhieni Cymraeg yr ardal, ffynnodd y Cylch ac yn awr derbynnir ef fel gwasanaeth cymdeithasol yn yr ardal. Mae'r mwyafrif o'r plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg ond fel ymhob Cylch Meithrin arall nid yw hyn yn broblem ac mae'r plant a'u rhieni yn fuan ar y ffordd i feistroli'r Gymraeg.

YSGOL FEITHRIN LLANFIHANGEL AR ELAI :

Sefydlwyd yr ysgol yn 1971 yn neuadd Pentref Sain George yng ngorllewin Caerdydd. Mae'r ysgol allan yn y wlad yn edrych tuag at Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Anodd iawn a fu ar y dechrau ond diolch i waith caled a charedigrwydd rhieni a ffrindiau mi ddatblygodd yr ysgol. Yn 1975 gyda costau cludiant yn codi mentrodd y rhieni ar yr antur fawr o brynu bws mini. O ganlyniad i hyn mae'r ysgol a'r bws yn dal i fynd heddiw.

Mae'r plant yn cael dechrau da i'w haddysg yn yr ysgol am eu bod yn gallu gweld natur ar ei waethaf a'i orau, yr anifeiliaid a'r blodau yn y caeau y tu allan i ddrws yr ysgol. Mis Mawrth eleni fe welodd y plant oen newydd ei eni.

Heddiw mae 95% o'r plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae hyn yn dangos bod yna ddiddordeb yn yr iaith mewn ardal di-Gymraeg o Gaerdydd.

Eleni mae grwp mam a'i phlentyn wedi dechrau. Mae'r grwp yn cyfarfod un bore o'r wythnos a'r ysgol y pedwar bore arall. Mae awyrgylch yr ysgol yn un hapus a chymdeithasol. Diolchwn yn bennaf am hyn i'r cydweithrediad rhwng y rhieni a'r athrawesau.

## DYFODOL DIOGEL

PRIODAS HELEN A CERI PREECE

Ddydd Sadwrn, Ebrill 18fed yng Nghapel Harmony, priodwyd Helen a Ceri ymysg eu perthnasau a'u ffrindiau.

Ail fab Mr. Moelwyn Preece yw Ceri a daeth yma i Gaerdydd yn grwtyn naw mlwydd oed. Bu yn Ysgol Bryntaf ac wedyn yn Rhydfelen cyn mynd i astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth lle cyfarfu a Helen oedd yn astudio Ffrangeg. Ar hyn o bryd mae'n gyfreithiwr gyda Hugh Jones, Jones a Jenkins ac yn gweithio yn eu swyddfa yn Talbot Green.

Priodas dda iddynt ill dau a gobeithio y cant ymgartrefu'n gyflym yn eu cartref newydd ym Meisgyn.

# MERCHED Y WAWR

CYFARFOD MIS TACHWEDD :

Ar ôl croesawu'r aelodau nôl o wlad hyfryd Awstria daeth Dr. Ben Thomas, Darlithydd yn yr Adran Ffiseg,Athrofa'r Brifysgol Caerdydd i draddodi darlith rymus inni ar Ynni Niwcliar. Trwy gyfrwng tryloywderau a'i ffordd ddihafal ei hun dangosodd Dr. Ben Thomas inni sut y daw'r ynni i'n cartrefi, ysbytai a'n gweithfeydd trwy'r rhwydwaith genedlaethol. Dysgasom hefyd lawer am y niwtron a'r waniwm 235;hefyd y problemau sydd yn dod yn sgil wrianiwm ymbelydredd a'r pwnc llosg cyfoes yng Nghymru sef claddu gwastraff niwcliar yn ein tir.

CYFARFOD MIS RHAGFYR :

Cawsom noson arbennig yng nghwmni Miss Evelyn Williams gynt o'r BBC. Hannai Miss Williams o'r Rhondda a mawr yw ei pharch i'w chyn ardal a'i chymeriadau lliwgar. Cyfoethoga'i phrofiad trwy ddod i nabod pobol fel Sybil Thorndyke, Huw Gruffydd a'r Heddychwr, George M.Ll. Davies. Bu yn ddisgybl i'r enwog Cynan mewn Ysgol Haf a mawr oedd ei pharch ato. Daeth tro ar fyd iddi pan ddaeth yn 1946 i weithio at y BBC a rhoi mwynhad i filoedd o blant Cymru. Mae Miss Williams yn deithiwr brwd ac wedi cyfoethogi'i hun trwy ddod i nabod tramorwyr.

Nawr mae Miss Williams mewn stad o orfoledd wedi ymddeol ac yn mwynhau ymlacio a thrin y gweill a'r edafedd mor fedrus ac fel yr oedd pan yn athrawes, yn drefnydd Cwmni'r drama Y Cwm, actio neu gynhyrchydd rhaglenni radio.

CYFARFOD MIS IONAWR :

Blwyddyn Newydd Dda oedd dymuniadau da ein Llywydd, Mrs. Catherine Jobbins i'r aelodau ar ddechrau blwyddyn. Daeth Mr. Vincent Phillips atom i'n diddori o'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Cawsom noson ardderchog yn ei gwmni yn cael darlith ar dafodiaethoedd Cymru. Cawsom daith ddiddorol oddi amgylch Cymru gyda help y tap recordio a blasu'r gwahanol dafodieithoedd. Rhoddodd pob aelod ei bwt ar y diwedd a chafwyd trafodaeth iach ddiddorol. Gorffenwyd y noson trwy inni glywed tap ar dafodiaith gwlad Llyn - iaith y nefoedd!!!

CYFARFOD MIS CHWEFROR :

Ddechrau Chwefror daeth cynulliad da iawn o'r merched ynghyd i wrando ar Dr. Douglas Bassett o'r Amgueddfa Genedlaethol. Cawsom ddarlith rymus ar hanes yr Amgueddfa o'r dechrau ac fel y mae wedi datblygu o'r fam Amgueddfa yng Nghaerdydd i lawer o ganghennau llewyrchus ar draws y wlad.

CYFARFOD MIS MAWRTH :

Ar ddechrau Mawrth daeth Merched y Wawr ynghyd i Ganolfan yr Urdd gyda dysgwyr Cymraeg y ddinas, a chafwyd noson ardderchog yn eu mysg a naws Gwyl Ddewi i'r noson. Cafodd y dysgwyr gyfle i ddefnyddio'u Cymraeg gyda Merched y Wawr tra'n mwynhau bara a chaws, cawl a theisennau cri (pice bach). Yn sgil y noson codwyd £20 a rhoir hwn at Gronfa Offer Lazer, Ysbyty'r Brifysgol.

CYFARFOD MIS EBRILL :

Barddota oedd noson mis Ebrill yng nghwmni Cangen y Barri a da oedd gweld cynulliad mor dda wedi dod atom. Bu yn noson hwyliog iawn gyda Mr. Islwyn Jones wrth y llyw a mawr yw diolch y Gangen iddo.

Bydd y Gangen yn dod ynghyd eto ar Fai 21ain i'r Cyfarfod Blynyddol a Chylch Atgof pryd y bydd rhai o'r aelodau yn rhannu eu hatgofion gyda ni.

Disgwylir i bob aelod fod yn bresennol er mwyn 'cau y mwdwl' am y flwyddyn.

Diolch am gefnogaeth y ffyddlonwyr ar hyd y flwyddyn ar ran Cangen Merched y Wawr Caerdydd.

Alwena Thomas.



OWEN EDWARDS YN ANNERCH

CYNHADLEDD Y BEDWAREDD SIANEL.

Yn Harlech, rhwng y 7fed a'r 10fed o Ebrill, cynhaliwyd yr ail Wyl Ffilm Geltaidd ac i nifer fawr o bobl yno uchafbwynt yr wythnos oedd y drafodaeth ar y bedwaredd Sianel yn Theatr Ardudwy ar ddiwrnod olaf yr Wyl. Mr. Owen Edwards a oedd wedi'i benodi'n Brif Swyddog Awdurdod Darlledu Cymraeg y Bedwaredd Sianel bedwar niwrnod ynghynt, oedd y siaradwr cyntaf. Fe sefydlodd ef o'r dechrau y teimlad cryf o obaith a nodweddodd yr holl drafodaeth. Mynnodd Mr. Edwards y byddai'r Sianel yn cychwyn mewn pryd ym mis Tachwedd 1982. Cyfaddefodd fod yna broblemau cyllidol mawr i'w datrys ond ychwanegodd ei fod ef ar eu gwaethaf yn gobeithio y byddai'r Sianel yn darlledu am 25 awr yn hytrach na'r 22ain sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Os oedd y toriadau yn anochel, meddai Mr. Edwards, y byddai'n well ganddo gyfyngu ar yr oriau na thorri ar ansawdd y rhaglenni.

Cafwyd Cynrychiolwyr o B.B.C. Cymru a Theledu Harlech yn son am bwysigrwydd cyfraniad eu cwmniau i lewyrch y Sianel neu Sianel Pedwar Cymru, fel y'i gelwid yn swyddogol. Roedd Cynrychiolwyr o Gwmniau Teledu yr Alban a'r Iwerddon yno ac wedyn mynegodd Euryn Ogwen y gobaith y byddai'r S4C yn rhoi cyfle gwerthfawr i gynhyrchwyr annibynnol wneud rhaglenni. Roedd presenoldeb Wynfford James fel Llywydd Cymdeithas yr Iaith yn arwyddocaol oherwydd mae ymdrechion y Gymdeithas i hybu'r Sianel yn hysbys i bawb. Roedd Mr. James yn gweld sefydlu'r Sianel fel potensial nad oedd eto wedi'i wireddu ac adlewyrchodd ef y gobaith a deimlai nifer fawr a oedd yn bresennol wrth weld gwireddu sefydlu'r Bedwaredd Sianel. I'r dyfodol oedd gweld cyflawni'r holl ddyheuadau yma.

Yn sicr fe frwydrodd Cymdeithas yr Iaith ond mae'n siwr mai brwydr Gwynfor Evans oedd yr un mwyaf arwyddocaol yn newid meddwl Willie Whitelaw. Buddugoliaeth bersonol i Mr. Evans oedd sefydlu'r Sianel ac roedd ei bresenoldeb yn gweddu i natur a theimlad y Gynhadledd. Yn araith fer Mr. Evans ar y Sianel, cawsom ddatganiad llawn brwdfrydedd ac optimistiaeth. Sefydlu hon oedd y datblygiad pwysicaf yn hanes yr iaith meddai.

Nicholas Gardiner.

# GŴYL GORAWL CAERDYDD 1981

Fe ddaeth pumed Gwyl Gorawl Caerdydd i ben gyda chyngerdd yng Nghanolfan Hamdden Trelai nos Sadwrn, 4 Ebrill. Yr arweinydd oedd Walter Weller, Awstriad hynod olygus o Vienna; yr unawdwyr oedd Norma Burrowes, Gwyddeles, Thomas Allen, Sais, a Kenneth Bowen o Lanelli. Roedd Cor Dyfed a Chor Peliffonig Caerdydd, sy'n trefnu'r Wyl flynyddol ar y cyd a HTV, wedi cyfuno ynghyd a bechgyn bach Ysgol Esgob Llandaf a'r Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol i berfformio "Carmina Burana" gan Carl Orff.

Ymateb unrhyw gor, am wn i, wrth glywed ei fod am berfformio "Carmina Burana" am y tro cyntaf yw dweud "Hwre" mewn ymateb i'r her, neu grynu yn ei sgridiau wrth feddwl sut i ddysgu gwaith mor anarferol. Mae'n siwr eich bod i gyd wedi clywed am y gwaith hwn: rwy'n credu iddo gael ei berfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gosodiad anarferol iawn ydyw o ddetholiad o gerddi canoloesol, rai ohonynt yn ddigon masweddus. Felly, llawn cystal i'r cor yn aml iawn yw methu deall yr iaith Almaeneg a Lladin rhyfedd yr ysgrifennwyd y cerddi ynddynt. Yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif hon yr ysgrifennwyd y gwaith gan yr Almaenwr, Carl Orff, ac ers ei berfformiad cyntaf gwnaeth argraff ddofn ar wrandawyr a chantorion.

Cynhaliwyd yr ymarfer llawn cyntaf ar gyfer y perfformiad, o ran y corau, beth bynnag, ar y nos Wener, ac er i Walter Weller ein cadw am dair awr o ganu'n ddi-dor, y peth rhyfedd bob amser yw nad yw cantorion yn blino o gwbwl o dan arweinydd dieithr a galluog. Doedd y ffaith fod Walter Weller yn ddyn mor ddeniadol ddim yn anfantais ychwaith!

Drannoeth, felly, tua 2.30, dyma ni i gyd yn crynhoi yng Nghanolfan Hamdden Trelai, gan gynnwys y gerddorfa a'r unawdwyr y tro hwn. Cyn gynted ag y trawodd y gerddorfa ei chord cyntaf, roedd pawb yn gwybod bod y goreuon wedi dod i Gaerdydd. Yn anffodus, yr hyn sy'n digwydd gyda'r cerddorfeydd 'mawr' yn arferol yw mai'r ail a'r drydedd fainc - yr ail orau fel petai - sy'n cael eu hanfon i'r 'rhanbarthau' fel Caerdydd. Ond hwyrach fod gan y ffaith i'r rhaglen gael ei theledu rywbeth i'w wneud a phresenoldeb y meinciau blaen y tro hwn.

A son am offerynnau. Prif nodwedd "Carmina Burana" yw'r seiniau anghyfarwydd ac anarferol sydd ynddo, ond bod y seiniau a'r cordiau hynny bob amser yn ganadwy iawn. Mae'r rhithmau hefyd yn hynod gyffrous a diddorol tu hwnt. Yng nghefn y gerddorfa, felly, gwelem offerynnau na welsom eu tebyg o'r blaen, o leiaf ni gantorion nad ydym yn gyfarwydd a 'phethe' y byd cerddorol. Roedd yno o leiaf dri gwahanol fath o ddrwm, triongl anferth, dau biano, dau offeryn tebyg i 'xylophone' ac o bob peth rhyw fath o ratl fel y bydd bechgyn bach yn ei chwifio mewn gem beldroed. Ar wahan i hyn oll roedd rhannau arferol y gerddorfa'n anferth, gydag ugeiniau bron o offerynnau pres yn creu swn bendigedig ac yn cyffroi'r gwaed.

Y broblem fawr ar y prynhawn tyngedfennol hwnnw, wrth gwrs, oedd ei bod yn ddiwrnod y 'Grand National'. Wn i ddim a yw Walter Weller yn ddyn ceffylau, ond chwarae teg iddo, fe drefnodd hoe i ni i gyd tra'r oedd y ras yn mynd ymlaen. Rwy'n siwr nad oedd y mwyafrif o'r gerddorfa - a'u diddordeb pennaf, rwy'n siwr, yn y betio - ddim yn gallu deall diddordeb cynifer o'r Cymry Cymraeg o Ddyfed yn y ceffyl Royal Stuart. Gorfu i rywun egluro iddyn nhw mai o gyffiniau Aberteifi y deuai'r joci, Hywel Davies.

Ar ol hoe fach - broffidiol i rai - a bodloni ar weld Hywel Davies yn dal ei dir tan tua'r pumed perth o'r lein, yn ol a ni at ein gwaith drachefn. Roedd yn rhaid i'r gerddorfa hefyd ymarfer 8fed Symffoni Beethoven, sef hanner cyntaf y rhaglen. Pawb i ymgynnull eto erbyn 8 y noson honno a'r 'set' a'r camerau teledu a'r goleuadau i gyd yn eu lle.

Roedd y neuadd yn orlawn a swn y gerddorfa'n fendigedig yn 8fed Symffoni Beethoven. Yna at y dasg. Un cord gwefreiddiol gan y gerddorfa ac yna i mewn gydag "O, Fortuna". Yr hyn sy'n fendigedig am waith mor gynhyrfus yw nad yw'r cantorion yn teimlo blinder o gwbwl, er gwaethaf gorfod aros ar eu traed trwy gydol y perfformiad. Ac yn 'Carmina Burana' mae'r 'cerddi' neu'r darnau i gyd yn gymharol fyr gydag unawdau rhyngddynt yn aml.

Profiad eithriadol ac arbennig iawn oedd hwn, felly, ac nid yn aml iawn y clywch chi gor cyfan yn cyfaddef iddyn nhw hefyd gael pleser o'r perfformiad, beth bynnag am y gynulleidfa.

Cadwch lygad i weld pryd y bydd y rhaglen yn cael ei darlledu, i chi gael barnu drosoch eich hunain a oedd gwefr y perfformio yn amlwg i'r gynulleidfa hefyd.

Mary Jones.

DEHONGLI DDOE

Un o archaeolegwyr disgleiriaf Awstralia yw Dr. Rhys Jones, mab Mrs. Enid Watcyn Jones, Pentyrch Hir, Pentyrch, a gwr a fwriodd gryn lawer o oleuni ar hanes dyn yn Nhasmania.

Gyda chyfaill o archaeolegydd aeth i ymchwilio'r wlad o gylch afonydd Denison a Gordon ar Ynys Tasmania - gwlad, gyda llaw, ple'r afonwyd rhai o wrthryfelwyr Y Beca, yn ystod y ganrif ddiwethaf. Roedd hyn ym mis Ionawr eleni. A hwythau ar gyrrion coedwig drwchus penderfynodd Dr. Jones, ar fympwy bron, dynnu'r cwch i'r lan. Dringodd y ddau ochr w weddol serth yr afon a daethant ar draws goeden enfawr, wedi ei diwreiddio'n llwyr, gan adael gwely o glai yn amlwg i'r neb a fynnai ddod heibio. Mater o lwc oedd hi i ddau archaeolegydd ddewis gwneud hynny. O fewn tua dau funud daeth Dr. Jones o hyd i rai olion hynafol yn cynnwys sglodion callestr, y dystiolaeth gynharaf eto, yn y rhan hon o'r byd, o fodolaeth dyn a'i deulu. "Ni synnwn o gwbl", medd Dr. Jones, "nad oeddynt yma o flaen y goedwig, a'r tebyg yw i honno ymddangos wedi i'r rhew gilio o'r fan tua 10,000 o flynyddoedd yn ol".

Dichon y cofia rhai o ddarllenwyr Y Dinesydd am raglen deledu a ymddangosodd ar Sianel 2, rai misoedd yn ol bellach, lle gwelwyd Dr. Jones yn dehongli peth ar hanes datblygiad dyn yn Nhasmania. Parodd i'r gwylwyr deimlo i'r byw drychineb diflaniad y gymdeithas frodorol - marwolaeth ffordd o fyw, marwolaeth y bu ein "gwareiddiad" gorllewinol ni yn llwyr gyfrifol amdano.

Ar hyn o bryd y mae Dr. Jones yn Gymrawd Ymchwil Hyn mewn Cyn-Hanes ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia yn Canberra. Gresyn na chaem ef yn ol yng Nghymru i lywio Adran a allai, trwy gyfrwng ein hiaith ein hunain, fwrw goleuni pellach ar hanes dyn yn y gongl hon o'r cread. Yn y cyfamser edrychwn ymlaen at gyfle i'w groesawu yma am dipyn o wyliau, cyn bo hir iawn.

# CERDDWYR CRWYS

Am hanner awr wedi wyth yn y bore ar yr 11eg Ebrill, 1981, ar ôl croeso a brecwast ardderchog yng Ngholeg Howell Harries cychwynodd unarddeg o gewri cyhyrog Capel y Crwys ar daith hiraf eu bywyd. O'u blaen roedd dros 50 milltir o gerdded caled drwy rai o fannau tlysaf Cymru cyn cyrraedd hacrwch diwydiannol dyffrynoedd y De. Taith noddedig oedd hon i godi arian tuag at sicrhau bod drysau Capel Heol y Crwys yn dal ar agor, am weddill y ganrif o leiaf. Yr unarddeg gwr doeth a ddechreuodd allan ar y daith oedd Gwilym Humphreys Lloyd Evans, Gareth Lloyd Jones, Alun Ogwen, Garwyn Davies, Keith Shapley, Gareth Williams, John Lloyd, Anthony Packer, Arwel Owen a John Albert Evans.

Yn gynnar iawn ar y daith penderfynodd y blaenoriaid mai dim ond un lle oedd iddynt hwy oedd ar y blaen a ffwrdd â hwy fel pe baent yn benderfynol o gyrraedd Caerdydd cyn te. Ar ol cerdded am ryw ddwy awr cafwyd stop fach am goffi ac archwiliad traed. Cyhoeddwyd yn siomedig iawn gan un neu ddau fod swigod neu bolleth neu bochell yn dechrau ymddangos ond ar ol baddon mewn 'surgical spirit' a bocs neu ddau o bowdwr pen ol babi i ffwrdd a'r ysbrydoledig griw am y bryniau. Roedd tipyn o hwyl a llawer o dynnu coes. Er mawr syndod i'r ddau flaenor roedd pawb yn eu dilyn yn dda er fod ambell un yn dechrau canlyn o hirbell ar ol rhyw ddeg milltir. Cyhoeddodd un o'r beirdd yn y cwmni ei fod yn teimlo bywyd braidd yn galed a'i fod yn gweld ugain o bobl yn y cwmni. Arafwyd ychydig ac arhoswyd am ginio ar lan yr afon a'r glaw yn dechrau disgyn ond roedd blas bendigedig ar y cywion ieir, a'r creision a'r afalau a'r holl stwnsh arall a oedd yn ein bagiau at bwrpas cadw corff ac enaid at ei gilydd.

Cafwyd taith galed yn y prynhawn ac ambell gawod o law ond roedd y traed a'r swigod a'r pollethi yn achosi problemau mawr i rai teithwyr bellach a digon lluddedig oedd y criw erbyn cyrraedd Tredegar. Ond doedd dim amdani, rhaid oedd dal i gerdded a'n nod oedd Clwb Golff Bargoed lle roedd pedair o garafanau yn ein haros. Dechreuodd y criw wahanu - rhai yn teimlo'n hapusach wrth gerdded yn gyflym a'r lleill yn teimlo mai gwell oedd ganddynt ymlusgo i ben eu taith. Wrth ddringo'r rhiw am y Clwb Golff roedd geiriau'r emyn,

Wedi'r holl drealon,
Gweld y ffordd yn .faith

yn troi yn fy mhen. Ni fum erioed falchach o weld carafan na'r noson honno. Yn fuan iawn cyrhaeddodd y ddau flaenor, rhyw ugain munud yn hwyrach daeth pump neu chwech arall a chyrhaeddodd y gweddill awr ac ugain munud yn ddiweddarach mewn cyflwr digon truenus.

Cafwyd croeso tywysogaidd yn y Clwb Golff - croeso Cymreig go iawn a swper hyfryd er mai ychydig o archwaeth oedd gennym am fwyd. Noswyliwyd yn gynnar a dyna i chi chwyrnu grymus. Wyth o'r gloch bore Sul dechreuodd Lloyd ar y dasg o wneud brecwast go iawn i bawb ac ar ol hyn prawf ffitrwydd. Roedd angen dwy ffon ar un cerddwr erbyn hyn a phenderfynodd mai amhosibl fyddai'r daith o rhyw 26 milltir a ffarweliwyd yn drist. Gwyrth a dweud y lleiaf oedd fod cynifer wedi dechrau o gwbl ar y Sul ac rwy'n siwr fod y ffaith fod cymaint wedi dechrau'r daith ar y bore Sul yn dweud llawer am wytnwch a dyfalbarhad aelodau'r Crwys.

Gallwn ddweud llawer am brofiadau'r ail ddiwrnod hefyd ond mae gofod yn brin. O Fargoed i Hengoed i Faes y Cwmer - dros y mynydd i Fachen ac i'r Fwrwm Ishta, mae'n ddrwg gen i, heibio'r Fwrwm Ishta ac i Rydri lle cyhoeddodd un o'r blaenoriaid fod y daith yn llawer rhy fyr. Awgrymwyd iddo y gallai fynd i rywle neu'i gilydd ac i mewn i'r goedwig am Llysfaen. Trefnwyd yn gyfrwys iawn i fynd ar goll yn y goedwig er mwyn ymestyn ychydig ar y daith. Cyrraedd Llysfaen a chroeso arbennig yno gan Mair Stephens a Mrs.Llewelyn - pop a theisenau bach i bawb. Hanner awr wedi pump - ein gol oedd Capel y Crwys am saith. Anodd oedd bod yn siwr bellach a oedd rhai o'r cerddwyr yn symud o gwbl. Roedd cerdded Glan y Llyn fel croesi'r cyfandir i mi a dyma'n sicr ddarn gwaethaf y daith. Hir y cofiaf osodiad pathetig Gareth yn Shirley Rd. Trodd ataf a dweud "petaech chi'n dad i fi baswn yn neidio ar eich cefn".

Cyrhaeddom y Crwys mewn amser wel bron pawb, ac ni fum i'n falchach erioed o weld yr hen gapel annwyl llwydaidd ei olwg a chael croeso iawn gan bawb. Roedd rhai rwy'n meddwl yn synnu ein gweld o gwbl; cafwyd swper bach hyfryd yn y festri a gwahanwyd am ein cartrefi. Bydd Capel y Crwys yn elwa o rhyw £1,000 gobeithio.

Profiad bythgofiadwy i bawb rwy'n meddwl. Diolch i bawb am y gwmniaeth hyfryd a'r holl dynnu coes di-drugaredd. Mae'r amser wedi dod rwy'n siwr i sefydlu Cymdeithas Cerddwyr Cyhyrog Caerdydd - mae yno gymaint o hwyl ar gael wrth gerdded ac yn sicr dyna'r ffordd i ddod i adnabod ein gwlad hyfryd yn iawn.

John Albert.







Mewn cystadleuaeth yn y comic SBONCYN, enillodd Lisa Miriam Reich, 8 oed, 59 Kings Rd., Canton, Caerdydd, wats.

Roedd angen i'r cystadleuwyr roi geiriau yng ngheg Gari Gofodwr a Jac Do, ac allan o 500 a yrrodd i mewn, roedd Lisa yn un o'r 10 buddugol.

I ddathlu SBONCYN yn 1 oed ym mis Mai, bydd cystadleuaeth arall gyda dau ddarganfyddwr trysor (metal detectors) yn wobrau. Mynnwch eich copi.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Mehefin at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd, erbyn yr 16eg Mai, 1981.

**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

# RHYFERTHWY'R BELDROED YM MAWRTH

Pwy fuasai'n meddwl, o gofio ein bod wedi chwarae peldroed pob dydd Sadwrn bron yn ddi-dor o ddechrau mis Medi, mai mis Mawrth fyddai'n rhoi'r trafferth mwyaf i ni. Nid fod gennym ni fel tim fawr i'w ddweud na gwneud ynglyn a'r mater chwaith, oherwydd y tywydd fu'r mistar ym Mawrth. Roedd cawodydd glaw trymion y pythefnos cyntaf o'r mis hwn yn ddigon i roi terfyn ar unrhyw feddwl a syniad am droi allan ar y meysydd chwarae - llifog-ydd ymhobman - llyn hwyaid o gae yn gwahardd hyd yn oed y mwyaf brwdfrydig o'r tim rhag mentro i'w ganol (ac mae na ddau ddwsin o rai brwdfrydig yn chwarae i Glwb Cymru, coeliwch chi fi!). Gohirio fu raid, y naill Sadwrn ar ôl y llall, ond gwnaed iawn am hyn trwy gynnal gweithgareddau amrywiol oddiar y maes.

Cafwyd gem sgitls un noswaith yng Ngwesty'r Hanner Ffordd yn Nhreganna, yr ornest rhwng aelodau'r tim cyntaf a'r ail dim (gan gynnwys y gwragedd). Cyfartal oedd y sgor ar ddiwedd y noson, er y bu brwydro caled ymlaen i weld pa unigolyn a gai'r sgor uchaf ar y terfyn. Afraid dweud mai merch fu'n ben, a llongyfarch-iadau i Einir (gwraig Rheon) ar ddangos fod cyhyrau'r breichiau yn deilwng o rywbeth amgenach na thaflu'r gwr o gwmpas y lle pan nad yw hwnnw'n ufuddhau i'w gorchmynion. Llongyfarchiadau hefyd i Delyth (gwraig Pwt) ar lwyddo i fethu a tharo unrhyw un o'r sgitls i lawr yn amlach na neb arall, camp nid bychan i'w gwneud. Diolch i Bags am drefnu'r noswaith yma, a diolch i'w frawd am gydsynio i aros yng ngwaelod y llwybr trwy'r nos i ail-osod y sgitls yn eu lle priodol ar ddiwedd pob rownd.

Achlysur pwysicaf y mis yn ddi-os oedd y Ginio Flynyddol, a mawr fu'r disgwyl eleni eto am y noson arbennig yma. Eleni, y lleoliad oedd tafarn y 'Greendown' yn St. George's heb fod nepell o ffiniau'r brifddinas, a'r cwbl wedi ei drefnu'n daclus gan ein trefnydd adloniant, Rheon (gwr Einir). Roedd y merched yn bresennol eto'r tro yma, yr unig dro i aelodau'r tim gyfaddef fod na ferch dda tu cefn i bob pel-droediwr da! Criw llon o ddeugain wedi ymgynnull i wledda, yfed, dawnsio, sgwrsio, a thalu gwrogaeth i chwaraewyr y flwyddyn am dymor 1980-81.

Wedi'r gwledda, ar gawl, cinio cig eidion gyda blod-fresych, pys, moron, a thatws rhost a grefi, tarten afalau a hufen, ac yna coffi i'w olchi i lawr, dyna gyrraedd pen pwysicaf y noson - yr areithio, y malu awyr, y chwerthin, ac yna'r pleser o weld wynebau dau aelod - un o bob tim, yn wen o glust i glust wrth glywed cyhoeddi eu henwau yn chwaraewyr y flwyddyn. Roedd y gweithrediadau yn nwylo cartwnaidd Cen Williams, ac yna cyflwynwyd tlws 'Seren Clwb Cymric' gan Gareth Huws i ddau aelod amlwg a phoblogaidd iawn o'r criw sef Gwyn bach (capten yr ail dim) a Dewi Huws (golgeidwad y tim cyntaf) - dau sydd wedi gosod safon a phatrwm arbennig trwy'r tymor y gall ser y dyfodol eu hedmygu a cheisio'u dynwared.

Rhag ofn anghofio am brif bwrpas y Clwb, sef chwarae pel-droed, gwell cofnodi fod dwy gem wedi eu chwarae ar waethaf gwlybaniaeth monswnaidd y mis, y gyntaf ar y 21ain o Fawrth ar gae mwd Sblott yn erbyn tim Sblott Albion. Cyfartal oedd y canlyniad, un gol yr un, ond roedd hi'n syndod fod pethau wedi troi allan cystal ag y gwnaethant. Mwd ymhobman at y penagliniau, sglefrio o un pen i'r cae i'r llall, a phrin oedd gobaith y chwaraewyr tindrwm megis Huws a Rheon o gadw eu traed o gwbl. Bu'n rhaid cyfrif pennau ar ddiwedd y gem i wneud yn saff nad oedd neb wedi ei adael ar ol yn y mwd, a phrysur fu'r sgwrs wrth ymolchi'r budreddi oddi arnom pan sylwedd-olwyd pwy mewn difri oedd yn chwarae. Gôl yn hwyr yn y gem gan Rhodri a sicrhaodd y pwynt i'r Cymric, a rhaid croesawu aelod newydd i'r tim y tro hwn sef Mici, un a fydd yn sicr o fod yn gaffaeliad pwysig ar gyfer y tymor nesaf (mae gwyr o Ddyffryn Nantlle yn gaffael-iaid pwysig i unrhyw dim wrth gwrs!).

Ar yr 28ain o Fawrth, ar faes Pontcanna, gem yn erbyn tim papur Wiggins Teape. Roedd y chwarae yn frwd, a'r maes yn rhyfeddol o sych wedi peth haul ddiwedd yr wythnos. Oherwydd anafiadau a galwadau eraill, roedd yn rheidrwydd gwneud newidiadau i'r tim, a phleser y tro yma oedd cael cwmni Dafydd Roberts, y gwibiwr medrus, yn ôl yn y gorlan i lenwi bwlch. Roedd gweld Dafydd, neu'n hytrach colofn o wynt lle bu Dafydd, yn chwyrlio o gwmpas y maes ar yr asgell dde, yn bleser i'r llygaid, a toedd hi'n syndod o gwbl pan wibiodd heibio i'r cefnwr druan i gongl y maes yn niwedd yr hanner cyntaf, croesi'r bel yn berffaith i'r canol, a Wyn, heb wybod ei lwc yn gallu taro'r bel yn ddiolch-gar i'r rhwyd o ryw chwe llath. Roedd gwell i ddod yn yr ail hanner, pan adawyd tri o'r gwrthwynebwyr mewn corwynt heb yn wybod i ba le i droi, a Dafydd y tro hwn yn darganfod cefn y rhwyd ei hun, a hynny heb golli dafnyn o chwys yn y fenter. Ym mududau olaf y gem, sgoriodd Wyn gol arbennig - penio'r bel yn gelfydd heibio i'r golgeidwad, a hwnnw fel pe bai wedi ei rewi yn ei unfan yn edrych arni yn rhuthro heibio. Y sgor derfynnol oedd tair gol i un. Dwy gem yn weddill felly - gemau caled yn erbyn Bridgend Street a Thongwynlais - tybed a sicrhawn bedwar pwynt ychwanegol i wneud hwn y tymor gorau erioed yn hanes Clwb Cymric. Tybed?

Rhodri Gwyn Jones.




Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefn-ogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# DAFYDD FRANCIS

**1911 - 1981**

Teyrnged Emyr Daniel i Mr. Dai Francis.

Nid gorchwyl anodd yw llunio teyrnged i Dai Francis. Mae'r bwlch a deimlir ar ei ol ym mywyd cyhoeddus Cymru mor fawr, a'r hiraeth ymhlith ei lu o ffrindiau am y wen ddireidus, y llifeiriant atgofion a'r dadleuon miniog-gyfeillgar mor ddwys, fel bod y geiriau'n dod yn rhyfeddol o rwydd.

Fel arweinydd undebol - ac, ar ol ei ymddeol, fel pwyllgorddyn ac ymladdwr brwd mewn meysydd eraill, gwnaeth gyfraniad cwbl unigryw tuag at hanes ei gyfnod. Ychydig iawn o'i safbwynt gwleidyddol ef sydd a'r hynawsedd a'r cyfaredd bersonoliaeth i ennill calonnau'r Toriaid mwyaf rhonc - a hynny heb ddyfrhau'r un gronyn ar ei ddaliadau. Prinach fyth yn y maes diwydiannol y treuliodd Dai ei oes ynddo yw'r bobl hynny sydd yn cadw'u gwreiddiau 'n ddwfn yn 'y Pethe'...... llenyddiaeth, cerddoriaeth ac eisteddfodau - boed yn Eisteddfod y Glowyr - uchafbwynt blynyddol ei fywyd, a theyrnged arhosol, teilwng i'w ymdrechion, neu'r Genedlaethol y bu mor ffyddlon iddi ac a'i anrhydeddodd, pob clod iddi gyda'i wisg wen. Nid y capel, wrth gwrs; trodd ei gefn ar hwnnw yng nghanol y tridegau oherwydd glastwreidddra'r crefyddwyr yn y frwydr dros iawnderau dynol. Ond, tybed, i ba raddau y trodd ei gefn yn llwyr? Cyfaddefai bod ei gomiwnyddiaeth yn nes at y Bregeth ar y Mynydd nag at Karl Marx a dyfynnai'n helaeth o'r ysgrythur ac o'r llyfr emynau. Un o'r cyffelybiaethau mwyaf lliwgar ganddo sydd yn aros yn y cof yw ei ddisgrifiad o Harold Wilson - "y celwyddgi mwyaf ers Ananias".

Oherwydd ei fod yn credu bod i gomiwnyddion ymuno a chyfalafwyr i enllibio Rwsia yn peryglu unplygrwydd ac unoliaeth y chwith, tueddai i amddiffyn y wlad honno rhag ei beirniaid. Disgrifiad Churchill o Rwsia oedd - "a riddle wrapped in a mystery inside an enigma".

Mae'n ddisgrifiad pur agos-i'wle o Dai ei hunan.



Sut mae cysoni'r comiwnydd oedd yn credu'n daer yn chwildro rhyngwladol y gweithwyr gyda'r cenedlaetholwr a ymladdodd un o frwydrau ffyrnicaf ei fywyd i sefydlu TUC Cymru, ac, wedi hynny, a fu'n weithgar diflino dros ddatganoli; yr undebwr milwriaethus iawn oedd hefyd yn dipyn o heddychwr, a'r anfyddiwr yr oedd Crist yn gymaint o arwr iddo? Y gwir yw nad oes modd cysoni'r fath gymhlethdodau - ond mewn personoliaeth mor hanfodol syml ac unplyg a Dai.

Nid athronydd mohono, ond gwleidydd cwbl reddfol - a phob greddf yn ei dywys tuag at ymladd yn erbyn anghyfiawnder. Mae'n anorfod bod dyn mor ddigymrodedd yn creu ambell elyn. Hyd yn oed ymhlith Cymry Cymraeg gwelwyd rhai oedd a'u casineb tuag at gomiwnyddiaeth yn fwy na'u cariad at eu cyd-ddyn. Eu colled hwy - y rhai a wfftiodd Dai, oherwydd ei berthynas a phlaid arbennig - oedd fawr. Tystiolaeth y rhai a ddaeth i'w adnabod, oedd mai braint yn ogystal a mwynhad pur oedd cael profi cynhesrwydd ei gyfeillgarwch.

Gwyddai Dai yn dda, fel T.E. Nicholas, un o'i arwyr pennaf, bod "Cyfaill y Werin" yn rhwym o wneud gelynion ymhlith y rhai nad oedd cyflwr y werin yn golygu dim iddynt....

"Gwelodd dylodi ar lwybrau
 llafurwyr,
Clywodd orthrymwyr yn canu i
 Dduw;
Clywodd acenion ar fin y
 pregethwyr
Yn crynu gan ragrith yn dod ar
 ei glyw.
Carodd y werin a chariad di-
 fachlud,
Brwydrodd dros iawnder i ddyn
 hyd ei fedd;
Daliodd ei freuddwyd di-lycnwin
 i symud
Drwy stormydd gorthrymder i
 lawnder a hedd.
Dywedodd yn groyw mai llafrudd
 yw'r milwr,
Galwodd offeiriaid yn dwyllwyr
 i'w hoes;
Galwodd y brenin ei hun yn
 segurwr -
A chlywodd Genfigen yn llunio
 ei groes".

Y linell olaf gan T.E.Nicholas yw'r unig un sydd yn anaddas. Nid cenfigen ond cariad oedd profiad Dai Francis - y carian a deimlai yn nyfnder ei galon at ei gydweithiwr, at Gymru ac at ei gyd-ddyn lle bynnag y bo; a'r cariad hefyd a brofodd ar ei aelwyd gan Cathryn (a fu yna briodas fwy dedwydd erioed?) a'r plant, Hywel a Nancy, gan ei gyd-weithwyr a gan ei gyd-Gymry.

Nawr mae'r mold wedi'i chwalu - ni welwn, ni welir, mo'i fath eto.

# COLLED ARALL -

## ANEIRIN JENKINS JONES

Tristwch i lu o garedigion yr Urdd yng Nghaerdydd oedd clywed am farwolaeth sydyn Aneirin Jenkins Jones. Mae gan lawer ohonom atgofion melys am ei bersonoliath hoffus a nwyfus a dyled iddo am ein tanio â brwdfrydedd a'n cadw'n brysur a diddig yn y Gwersylloedd ac yng ngornestau Sêr y Siroedd. Cydymdeimlwn â Nona ei wraig, a'r plant Sara a Daniel.


**ARCADE**
**Wales Fortnightly**

Dylech fod wedi gweld *ARCADE*, cylchgrawn materion cyfoes newydd Cymru, erbyn hyn. Bob pythefnos rhown olau newydd ar wleidyddiaeth, llenyddiaeth, chwaraeon, darlledu, y celfyddydau, a materion economaidd a chymdeithasol.

Ond mae ffyniant tymor-hir *ARCADE* yn dibynnu ar gael rhestr danysgrifwyr dda. Os oes gennych ddiddordeb o ddifrif yn beth sy'n digwydd yng Nghymru anfonwch eich enw a chyfeiriad gyda siec (£14 am 24 rhifyn, £7 am 12) i ARCADE 43 Lower Cathedral Road, Caerdydd CF1 8LW. Os hoffech weld sampl gopi yn gyntaf, ysgrifennwch i'r cyfeiriad uchod a phostir un i chi ar unwaith.

# AT DDANT PAWB

Cwynir yn aml am ddiffyg hyder y Cymry a'u harafwch i fentro i fyd busnes. Cwynir hefyd gan rai, ac yn eiddigeddus yn aml, am barodrwydd y Sais i fentro ac i lwyddo mewn siop, gwesty, neu ffatri yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n dda gan y Dinesydd, felly, longyfarch a dymuno'n dda i rai o Gymry Caerdydd am wneud yr union beth.

Flwyddyn yn ol, ymgymerodd Gwenda Jones a Iona Lloyd-Williams a rhedeg y Bwtri yng Nghastell Sain Ffagan am gyfnod o flwyddyn. Bu'n agored o 10.00 y bore hyd 4.30 i 5.00 y prynhawn o'r Llun i'r Sadwrn o ddechrau Ebrill hyd ddiwedd Hydref, ac yn agored hefyd bob prynhawn Sul drwy'r flwyddyn rhwng 2.30 a 4.30.

Bu'r Bwtri o dan eu goruchwyliaeth y fan gartrefol, gyda naws Gymreig, ac yn boblogaidd ac yn llwyddiannus. Cafwyd bwydlen chwaethus a blasus i'w ddewis ohoni gan gynnwys bwydydd Cymreig, yn cael ei weinyddu gan weinyddesau yn siarad Cymraeg - a hwn yn fwyd wedi ei goginio yn y Bwtri ei hun, ac yn ffres bob dydd.

Mae'n dda gan y Dinesydd ddweud fod Gwenda a Iona wedi cymryd y Bwtri drosodd am flwyddyn arall a dymunir llwyddiant mawr iddynt eleni eto, gan obeithio bydd darllenwyr y Dinesydd yn eu cefnogi.

Yn ogystal a rhoi gwasanaeth i unigolion sy'n taro i mewn, gellir trefnu i bartion o flaen llaw. Os dymunwch wneud hyn ffoniwch Caerdydd 569441, Estyniad 25. Cynhaliodd Gymdeithas Eglwys Heol y Crwys eu Cinio Gwyl Ddewi yno eleni, a bu'n llwyddiant mawr.

Yr ail fenter sydd yn haeddu cefnogaeth ym marn y Dinesydd - beth bynnag gan y Cymry sydd yn gerddorol - yw siop newydd cerddoriaeth Rhisiart Arwel. Agorodd hon tua dechrau Ebrill yn adeilad The Shopin, 10-11 Heol y Castell.

Mae Rhisiart Arwel yn adnabyddus inni fel cerddor ac yn arbennigwr ar chwarae'r gitar glasurol, yn ogystal a dysgu chwarae'r gitar.

Soniodd wrth ein gohebydd am anawsterau rhai o'i efrydwyr ac eraill i gael hyd i gitarau clasurol. Mewn adeg lle bu diddordeb yn yr offeryn hwn yn cynyddu aeth yn fwy anodd i brynu gitarau heb fynd i Fryste neu hyd yn oed Llundain. Sylweddolodd fod angen llenwi bwlch ac o dipyn i beth dechreuodd brynu a gwerthu gitarau clasurol. Sylweddolodd hefyd fod angen siop o'r fath yng Nghaerdydd a mentrodd agor un ei hun. Enw'r siop yw 'Gitar' ac yn ogystal a gwerthu gitarau clasurol a thannau gellir prynu ganddo gerddoriaeth a thaclau o bob math yn ymwneud a gitarau.

Dymuna'r Dinesydd lwyddiant i Risiart Arwel hefyd gan obeithio eto bydd ein darllenwyr yn ei gefnogi. Ei rif ffon yw 374299.

---

GŴYL MUDIAD YSGOLION MEITHRIN 1981.

Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn dathlu ei ddegfed penblwydd eleni. Dethlir ein penblwydd gyda'r Ŵyl arferol i'w chynnal ym mis Mehefin o'r 6ed hyd y 13eg. Bydd amryw weithgareddau yn Ne Morgannwg, ac edrychwn ymlaen at lu o ymwelwyr fel yn y gorffennol.

Dechreuwn ein dathliadau amrywiol gyda Gorymdaith Cyhoeddi 'r Ŵyl Feithrin ar y 6ed o Fehefin trwy ganol ein Prifddinas. Bydd plant ein Cylchoedd Meithrin a phlant ein Ysgolion Cynradd ag Uwchradd yn cymryd rhan i ddangos ein cysylltiad agos â'n gilydd, a'r dilyniant rhagorol sydd yn ein Sir o'r Cylchoedd Meithrin i'r Ysgolion Cymraeg.

Trwy gydol yr wythnos bydd arddangosfa celfyddyd plant ein Cylchoedd Meithrin yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter. Cyfle na ddylid ei golli i weld arddangosfa wych o waith plant dan pump oed.

Bydd pob Cylch Meithrin yn cynnal boreau agored a threfniadau eraill yn eu hardaloedd eu hunain.

Ac i orffen yr wythnos cynhelir te parti mawr i blant meithrin y sir yn Ysgol Gyfun Glantaf gydag adloniant.

Gwyliwch am fwy o fanylion yn y Dinesydd nesaf.

Avril Jones,
Swyddog Datblygu.

# CYLCHOEDD MAM A'I PHLENTYN

Daeth y frwydr am ddilyniant i ben am y tro a gwelir fel y soniwyd eisoes yn y Dinesydd fod pedair Ysgol Gynradd Gymraeg i'w hagor ym mis Medi.

Gedir hyn yr Ysgolion Meithrin yn rhydd i dyfu a datblygu gyda'r sicrwydd y bydd dilyniant am ychydig flynyddoedd. Ar hyn o bryd 19 Cylch Meithrin sydd yn y Sir. Agorwyd dau Gylch Meithrin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yma, a chaewyd dau Gylch am fod yno ddiffyg plant. Trist yw cau Cylch ac oherwydd hyn, ers mis Medi canolbwyntiwyd ar agor Cylchoedd Mam a'i Phlentyn lle y gellir croesawu rhieni di-Gymraeg gyda'u babanod ifanc neu eu plant bach i ddod i mewn i'n cylchoedd i wneud ffrindiau newydd, cymdeithasu, a chael cyflwyniad i'r iaith Gymraeg. Maent yn sicr yn llwyddiant ac ers Medi diwethaf agorwyd chwe Cylch Mam a'i Phlentyn newydd sydd yn dod a'r cyfanswm i 13, rhai i fwydo cylchoedd meithrin presennol a rhai i dyfu yn y dyfodol yn gylchoedd meithrin eu hunain.

Os gwyddoch chwi, ddarllenwyr Y Dinesydd, am unrhyw un, cymydog, neu ffrind sy'n feichiog, neu gyda baban ifanc, apeliaf atoch bawb i wneud y ffaith yn hysbys fod addysg feithrin a chynradd ac uwchradd ar gael yn ein sir ni trwy gyfrwng y Cymraeg. Does dim rhaid medru'r iaith Gymraeg i fanteisio ar y cyfle i blant y dyfodol gan fod 80% o'n plant yn barod yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Gall unrhyw un sydd am wybodaeth pellach gysylltu â fi, Avril Jones - fy rhif ffôn yw Caerdydd 757514.

---

CÔR TANNAU TAF YN LLANDAF.

Cyd-ernes yw'r coed arni
Cyd-ddyheu a'i cododd hi.

Er mai am Neuadd Mynytho y soniodd Williams Parry, sôn am yr Hen Grwys ar ei newydd wedd a wnaeth y Barnwr Dewi Watcyn Powell wrth lywyddu'r cyngerdd a roddwyd gan Gôr Tannau Taf yn Neuadd Bentre Llandaf. A noson fel yna oedd hi. Cydganu a chydgordio perffaith ar ran y côr a'r artistiaid a chyd-weithio a chyd-drefnu dygn ar ran gweithwyr Llandaf. A chanlyniad y cwbl oedd noson fendigedig o gynnes a chroesawgar, ac fel bonws ychwanegol, elw sylweddol at Gronfa'r Eglwys.

## ADRODDIAD JOHN ALBERT O 'STEDDFOD Y DYSGWYR

O gofio am fethiant ofnadwy Eisteddfod Caerdydd yn yr Hydref dyna braf yw gallu adrodd unwaith eto am lwyddiant ysgubol Eisteddfod y Dysgwyr. Ie, noson i'w hir gofio eleni eto oedd trydedd Eisteddfod Flynyddol y Dysgwyr. Roedd hi'n olygfa fendigedig i weld neuadd Canolfan yr Urdd dan ei sang o ddysgwyr eiddgar ac o Gymry Cymraeg cefnogol i'r achos.

Roedd yna nifer o bethau a oedd yn plesio'n arbennig eleni fe gredaf. Dyna hyfryd oedd cael dau dim newydd o Gwent am y tro cyntaf, o Risca ac o Gasnewydd, a hwythau mor frwdfrydig. Gwelwyd tim bach o Aberdar am y tro cyntaf ac er na fuont yn cystadlu yn yr Eisteddfod o'r blaen, bu bron i dim eithriadol o dalentog o Abertawe ennill y cwpan am y tim i ennill y mwyaf o bwyntiau yn yr Eisteddfod. Trist iawn oeddem na welwyd cynrychiolaeth o Benybont eleni ac yn wir mae yna nifer o ganolfannau eraill erbyn hyn sydd heb erioed ddangos cefnogaeth i'r Eisteddfod hon. Beth am Y Barri a Pontypridd a Chaerffili hefyd.

Cafwyd nifer o uchafbwyntiau yn y noson - anerchiad caboledig Sylvia Home fel llywydd y nos, deuawd hyfryd iawn o Abertawe, Cor Canolfan yr Urdd o dan faton Gwilym yn ennill y brif eitem gorawl. I mi'n bersonol, roeddwn mor falch o weld Jane Sharpe o Bort Colborne, Ontario, Canada, yn ennill y goron am stori fer hyfryd. Fe ddechreuodd Jane ddysgu Cymraeg yn un o'm dosbarthiadau yn Vermont tua pum mlynedd yn ol. Mae hi nawr yn swyddog marchnata yn Theatr y Sherman, Caerdydd, ac yn gweithio'n galed dros yr iaith yno. Mae hi'n rhugl yn y Gymraeg erbyn hyn ac roedd hi mor falch o gael ennill y goron. Llongyfarchiadau Jane.

Roedd hi'n chwarter wedi hanner nos pan gyhoeddwyd mai Canolfan yr Urdd Caerdydd oedd wedi ennill y gystadleuaeth i'r timau eleni eto am yr ail dro

ond er ei bod mor hwyr neu fore, roedd y neuadd yn dal yn llawn a theimlwyd rhyw angerdd arbennig wrth ganu Hen Wlad Fy Nhadau fel diweddglo i tua chwe awr o gystadlu hapus.

Y Stori Fer Fuddugol

### BARA

Yn y bore bach, cododd Megan i godi bara - cymysgu, tylino, ffurfio, pobi - saith awr o'r basn i'r popty ar gyfer pedair torth y bara beunyddiol. Rwan, gyda'i thorthau yn pobi, roedd amser am saib bach iddi cyn ddechrau'r mynydd o dasgau y dydd.

Roedd e mor gynnar yn y dydd am deimlo mor flinedig ond roedd y gwaith, y gwres, a'r defod heb diwedd yn pwyso yn drwm arni hi. Dim ond pedwar deg oed oedd hi ond, mewn hen ffrog cotwm wedi'i gwywo, wedi'i gwywo a hen oedd hi'n edrych.

Pwyso yn erbyn cil y drws cefn, syllodd hi dros yr ardd i'r sgubor a thu hwnt i'r paith - golygfa mor annaearol ac eto mor gyfarwydd. Roedd yr haul wedi ymestyn at ei entrych e a'r gwres yn crasu'r ddaear yn greulon. Ddydd ar ol dydd, fis ar ol mis, doedd dim wedi bod arwydd glaw; roedd y tir yn troi mewn i luwch a rwan, gyda gwyntoedd gryf poeth yr haf yn crafangu'r lluwch i'r awyr, roedd y nefoedd, y byd, bywyd i gyd yn llwyd - llwyd fel lludw, sych fel asgwrn. Roedd sychder yn cyffwrdd popeth, yn cropian dros y paith, dros sgubor, beudy, a thy i gyrraedd i werin am edwino eu eneidiau.

A, thra roedd y bara yn pobi, cofiodd Megan; cofiodd hi amser cyn i'r byd yn mynd mor hen. Cofiodd hi mai'r Haf oedd hi pan iddi gyrraedd y peithiau yn gyntaf. Daethant, ei mam a Megan, wyth oed, i gysylltu a Tad oedd yn cerfio cartref newydd iddynt o'r peithiau. Aduniad ar ol deunaw o fisoedd fe fasai ef - deunaw o fisoedd yn llawn gan llythyrau yn addo rhyddfraint a dechrau newydd. Roedd brwdfrydedd y Tad wedi'u cefnogi nhw, felly, pan ddaeth yr amser i ymadael, roedd hwyliau wedi'u codi. Fe fyddai'r freuddwyd yn cael ei gwireddu.

Ond, breuddwyd oedd e, neu hunllef? Doedd Megan ddim yn barod am y gwirionedd a ffeindiodd hi ar ol cyrraedd. Nid ty carreg cysurus oedd yn aros amdanynt - dim ond rhyw fath o dy un-nos annaearol, ty tywyrch yn swatio ar y gwastad-edd gwag a diddiwedd. Crogir y drws ar golfachau ledr, a roedd y gwynt yn chwibanu trwy'r to estyll. Oedd e'n bosib bod y fath le yn y byd? Oedd e'n bosib mai hwn oedd y dechrau newydd? Oedd.

Pasiodd y dyddiau, yr wythnosau; y gwirionedd oedd y hunllef ac, yn araf, daeth Cymru i fod yn freuddwyd. Hapus oedd ei rhieni; dim ond bod gyda'i gilydd oedd yn bwysig iddynt a gyda'i gilydd fasen nhw'n derbyn y sialens.

Roedd Megan fach yn eistedd ar ei charreg, yr unig wynepryd naturiol (trwyn, mae'n debycaf) ar wyneb ei daear hi. Heb ffrindiau, heb sylw oddi wrth ei rhieni (doedd dim i sbario), roedd hi'n dechrau ei throi mewn i garreg, i ddod, o'r diwedd, rhan o'r paith.

Ond, thra iddi'n troi a throi, roedd arogl yn cyrraedd darn bach oedd merch fach o hyd. Ar y gwynt, roedd arogl bara ffres wedi'i glywed ac, o dros yr ardd, daeth llais Mam yn chwilio am ferch fach i brofi'r dafell boeth gyntaf. O'r garreg, cododd merch fach; rhedodd hi at y ty a allai fod yn gartref, efallai; a chollodd hi ei thrueni am dipyn yn aroglau y gegin a blas y bara.

Pwyso yn erbyn cil y drws, dihunodd Megan, y Megan henach, i arogl ei bara wedi'i bobi ac, yn codi'r dorthau tew o'u uffern bach, roedd yr amser am freuddwydio wedi dod i ben. Yn dyner, troiodd Megan ei ffon bara mas wrth y ffenestr, ond, cyn iddi gadael nhw, cuddiodd nhw gan liain yn erbyn y gwynt, yn erbyn y lluwch, ac yn erbyn y gwastadedd.

---

LLONGYFARCHIADAU :

Pob dymuniad da oddi wrth staff y Sherman i'w Swyddog Marchnata, Jane Sharpe ('Sian Finiog'). Enillodd Jane y brif wobr - y Goron - yn Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg a Gwent a gynhaliwyd yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd.

Er iddi ddod i Gymru o Ganada flwyddyn yn ol, mae Jane yn dysgu Cymraeg ers 1977. Am y Goron, ysgrifennodd stori fer, wedi'i galw yn syml yn 'Bara', sy'n ymwneud â bywyd Cymraes yn byw ar beithiau Canada yn ystod y tridegau.

Cynhaliwyd y Seremoni Goroni o flaen cynulleidfa o 200 o ddysgwyr ac athrawon o Aberdar, Abertawe, a Chaerdydd a'r Cylch. W.J. Jones, Caerdydd oedd y Beirniad.

Am ei llwyddiant, mae Jane yn dweud, "Allwn i ddim meddwl am ffordd well i ddathlu diwedd fy mlwyddyn gyntaf yng Nghymru".

# COLOFN SHÂN

Y mae'r rhifyn hwn o'r Dinesydd yn arbennig - wedi'i neilltuo i ddathlu penblwydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn ddeng mlwydd oed. Gweddus yw hi i ni dalu teyrnged i'r Mudiad pwysig yma, yn enwedig gan i gynifer o Gymry Caerdydd chwarae rhan amlwg yn y dyddiau arloesol cynnar - pobol fel Gwilym Roberts. Bethan Roberts, Mair Owen ac Emyr Jenkins.

Erbyn hyn mae gan y Mudiad bencadlys a staff broffesiynol. Cofiaf fy nhad yng nghyfraith yn dyfynnu brawddeg sy'n werth ei chofio "The idea gives birth to the organisation and the organisation kills the idea". Dyfynai Syr Ifan y frawddeg hon yng nghyswllt pwysigrwydd yr elfen wirfoddol yng ngwaith yr Urdd. Tybiaf innau ei bod yr un mor bwysig cofio'r geiriau yng nghyswllt Mudiad Ysgolion Meithrin.

Fel y tystia cynnwys y rhifyn hwn, mae 'na fyddin o wirfoddolwyr yn gefn i'r Mudiad. Gyda chefnogaeth ac arweiniad y staff - dyma galon y mudiad - yr athrawon, y tadau a'r mamau sy'n fodlon gweithio'n galed i godi arian i gynnal y cylchoedd, ac yn bwysicach yn wylwyr ar y twr i ofalu bod yna ddilyniant Cymraeg i addysg eu plant o'r bon i'r brig. Mi fyddai'n pryderu er yr holl ddycnwch a dyfeisgarwch ein bod yn amal yn syrthio'n brin o'n nod, ac nad yw pob plentyn sy'n cyrraedd Ysgol Uwchradd Gymraeg mor rhugl eu Cymraeg ag y dylent fod. Yn y ddegawd nesaf credaf mai'r nod wrth genhadu ddylai gofalu bod y plant unwaith y dont o dan adain y Mudiad yn cael eu trwytho mewn Cymraeg cyhyrog llawn idiomau. Ymlaen i'r dyfodol!

Mae 'na ddathliad arall y carwn son amdano. Mae'r 'Drafod', papur Cymraeg y Wladfa yn dathlu'i benblwydd yn 90 oed eleni, ac mae rhifyn y dathlu newydd ddod i law - rhifyn swmpus o 24 tudalen. Mae hirhoedledd y Drafod yn tystio i ddycnwch Cymreictod y Wladfa yn wyneb pob math o anhawsterau, ac yn her i ninnau ddyfalbarhau yn ein hymdrechion ninnau yma yn yr 'Hen Wlad'.

Bodlonaf ar dri dyfyniad o rifyn dathlu y Drafod.

Rhifyn cynta'r Drafod 1891:

"Wrth gychwyn y newyddur cyntaf hwn yn y Wladfa, yr ydys yn teimlo dipyn yn bryderus ar iddo wasanaethu yn deilwng y neges o wareiddio a choethi, sydd yn arbennig waith y wasg. Pennaf amcan y Drafod fydd gwasgar dylanwad darllen a meddylio drwy ein cymdeithas wladfaol. O ddiffyg cymundeb a'r byd teimlo yr ydys ers blynyddoedd fod perygl i ni geulo ar ein sorod heb hogi ein gilydd, a gloewi wynebau ein cyfeillion......

Y Drafod 1947:

".....yr ydym ni yr hen bobol sydd ar noswylio yn gadael yr iaith a'i llenyddiaeth mewn cyflwr da i'r rhai a ddaw ar ein holau. Y mae'r iaith wedi ei choethi a'i llyfnu yn rhagorol yn ystod yr hanner canrif diwethaf. Busnes y bobol ifanc yw ei chadw neu beidio. Cadwodd yr hen bobol hi yn ystod eu hoes, ac ar ol iddynt hwy fyned i fford yr holl ddaear, pa bwys wedyn iddynt pa iaith a leferir yn y byd hwn?.."

Golygyddol 1981:

"Bu cryn dipyn o newid er cyhoeddi'r rhifyn cyntaf hwnnw yn Ionawr 1891. Mae Trelew wedi tyfu o fod yn bentref b bychan ar gwr y paith i fod yn dref o ryw 52 mil....er hynny, erys o hyd beth o ddylanwad y sefydlwyr cynta....ni allwn byth freuddwydio am gylchrediad uchelgeisiol fel y gall rhai eraill ei wneud. Dim ond ceisio gofalu amdani a'i chadw i fod yn ddolen gydiol rhwng digwyddion y Cymry yma, gan ddod a geiriau iddynt yn hen iaith y tadau fel arwydd o'r ysbryd a'i symbylodd hwy i arloesi gwlad newydd ym mhellafoedd byd a chyflwyno iddi beth o nodweddion gorau gwlad eu mebyd".

Pob llwyddiant yn y dyfodol i Fudiad Ysgolion Meithrin ac i'r Drafod - y papur bro Cymraeg hynotaf mae'n debyg.

Llongyfarchion i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau piano dan nawdd y London College of Music:

Gradd 1: Nia Davies;
Elinor Thomas (Dosb.1)
Gradd 2: Andrew Diplock
Rhian Williams(Dosb.1)
Huw Jones (Dosb. 1)
Gradd 3: Gwenan Evans (Anrhyd.)
Gradd 4: Sian Elin Parry (Dosb.1)

Disgyblion Mrs. Jennie Evans, Heath Park Avenue.

DADORCHUDDIO COFEB

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Salem, Canton, Caerdydd, nos Wener, 13 Mawrth. Dadorchuddiwyd cofeb i'r diweddar Barch. W. Iorwerth Hughes, B.A.,B.D., cyn-weinidog yr Eglwys, gan ei weddw, Mrs. N. Hughes. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch D. Haydn Thomas, B.A., arolygwr Salem. Arweiniwyd mewn defosiwn gan y Parch M.R. Mainwaring, M.A.,B.D., ac offrymwyd gweddi i gysegu'r gofeb gan y Parch Haydn Thomas (Eglwys Heol y Crwys). Cyflwynwyd anerchiadau gan y Parch H. Godfrey Jones, B.A.,B.D.,Clydach, a'r Parch E. Ffrancon Davies, B.A., Mynydd Cynffig. Talwyd teyrnged i wr bonheddig ac annwyl, cyfaill ffyddlon a diffuant, pregethwr ymroddedig a bugail cydwybodol. Cyfeiriwyd hefyd at y geiriau addas a ymddengys ar y gofeb, sef 'Diwyd oedd o blaid y da'.

Bu'r Parch. W. Iorwerth Hughes yn weinidog ar eglwysi ym Merthyr Tudful, Resolfen, Rhyl, Treherbert a Blaenrhondda, Canton a'r Barri. Ymhlith y gynulleidfa gref yn y gwasanaeth dadorchuddio yr oedd llawer o'i gyd-weinidogion ac o'i gynaelodau, gan gynnwys nifer o eglwys Penuel, Y Barri a gofalaeth Treherbert.

MERCHED O GAERDYDD YN CAEL EU HAPWYNTIO I SWYDDI ALLWEDDOL YN EIN HYSGOLION CYFUN.

Llongyfarchiadau calonnog i Nia Humphreys ar gael swydd Ffrangeg yn Ysgol Gyfun Penweddig Aberystwyth. Swydd gyntaf Nia yw hon a gwyddom fod Ysgol Penweddig yn ffodus i gael merch mor ymroddgar a hi ar y staff.

Mae merch arall o Gaerdydd, Catrin Lewis o Lysfaen, hi eto wedi graddio yn Aberystwyth, y tro hwn yn y Gymraeg, wedi cael swydd Drama yn Ysgol Gyfun Glantaf. Mae wedi bod yn amlwg ym mherfformiadau enwog yr Adran Ddrama yn Aberystwyth, yn arbennig eu cynhyrchiad nhw yn Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon.

Mae'r ddwy yn ferched i Gymry amlwg yn y ddinas ond yn rhinwedd eu hunain ymfalchiwn yn eu llwyddiant presennol. Mae llawer iawn ohonom wedi bod yn gwylio eu datblygiad dros y blynyddoedd.

Cydymdeimlir a Mrs. Ruth Stephens a Mr. David Meredith ar farwolaeth eu tad Y Parch J.E. Meredith, Aberystwyth.

(o dud. 1.)

yn £94,000 a £165,000. Bu cynnydd sylweddol felly yn y grant i'r cylchoedd ac yn sgil hyn mae'r pryder fu gynt ynglŷn â chyllid cylch wedi lleddfu dipyn. Serch hyn ni all y cylchoedd fforddio llaesu dwylo a dibynnu ar y grant am eu cynhaliaeth. Bydd angen parhaol i ymgymryd â'r gweithgareddau arferol, i gynnal ffeiriau haf a Nadolig, boreau coffi, rafflau ac yn y blaen.

Dyma'n fras ein cynllun ar gyfer gwario'r arian. Yr ydym o'r farn bod iaith plentyn yn datblygu yn ôl nifer yr oriau/sesiynnau y daw i gysylltiad â hi ac felly byddwn yn cefnogi cylchoedd yn ôl nifer y sesiynnau y maent ar agor. Bydd y grant hefyd yn ein helpu i oresgyn un o'r prif anawsterau wynebwyd yn y gorffennol, sef cyflogi athrawesau. Daw'r fantais o hyn i'r amlwg yn arbennig yn y parthau hynny lle roedd datblygiad yn anodd cynt oherwydd prinder merched Cymraeg i weinyddu mewn Cylch Meithrin.

Bellach un o'r prif broblemau yw cael digon o arian i weinyddu'r Mudiad yn ganolog. Mae cael grant i'w gyflwyno i'r cylchoedd yn ddatblygiad cymeradwy iawn ac mae pawb oddi mewn i'r Mudiad yn awyddus i wneud y defnydd mwyaf effeithiol ohono. Ond rhaid gweinyddu y grant hwn a siomedig yw £94,000 i oruchwylio gwaith y Mudiad trwy Gymru gyfan. Cofier bod raid talu holl gostau swyddfa a staff allan o hwn. Na feddylied neb felly bod problemau ariannol y Mudiad ar ben. Bydd angen cefnogaeth sylweddol arnom megis y cafwyd yn y gorffennol ac rydym yn ddyledus i Gronfa Glyndwr am ei help amserol yn y cyswllt hwn.

Un o ddatblygiadau mwyaf cyffrous y blynyddoedd diwethaf yw'r gydnabyddiaeth dderbyniwyd o Frwsel. Mae deffroad cyffredinol ar gyfandir Ewrop mewn lleiafrifoedd a'u hieithoedd ac mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei ystyried fel un all arwain y ffordd i fudiadau cyffelyb mewn gwledydd eraill. Mae'r Sefydliad Ewropeaidd er Hyrwyddo Diwylliant am noddi ymchwil i amrywiol agweddau o waith Cylch Meithrin. Yn nhreigl amser mae ein cylchoedd wedi derbyn mwy a mwy o blant o gartrefi di-Gymraeg. Dyma un agwedd o'n llwyddiant ond ar yr un pryd mae'n sefyllfa sy'n medru creu anawsterau. Bydd yr ymchwil yn pwyso a mesur y dulliau o ymdrin â grwp cymysg ei iaith, yn ceisio mesur cynnydd iaith y plentyn yn ystod ei gyfnod yn y Cylch ac yn ceisio gweld i ba raddau y mae'r Mudiad wedi dylanwadu ar y galw am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector statudol.

Rwan te, yn ôl at y presennol a'r Wyl Feithrin. Bydd pob cylch a phwyllgor Sir yn cynnal llu o weithgareddau, nosweithiau cymdeithasol, gorymdeithiau, cystadleuthau a theithiau nawdd o bob math.

Yn genedlaethol, rydym yn cynnal cystadleuaeth cyfansoddi 'Cân y Mudiad' ac mae'n bur debyg eich bod wedi clywed sôn am hyn ar 'Helo Bobol'. Cewch fanylion ynglŷn â'r gystadleuaeth o Swyddfa'r Mudiad, 89 Heol Llanishen Fach, Caerdydd. Mae gwobr o £50 i'r buddugol ond brysiwch,mae'r dyddiad cau yn prysur agosau.

Un o'n prif broblemau yn y gorffennol oedd cario neges y Mudiad allan at y cyhoedd. Wel! rydym wedi prynu carafan er mwyn goresgyn y broblem yma. Mae'r garafan yn cael ei chynllunio ar ffurf Cylch Meithrin symudol a byddwn yn lansio hon hefyd yn ystod yr Wyl Feithrin.

## LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau i Jon ac Eleri Shepherd ar enedigaeth Owain Rhys ac wrth gwrs i Dilys a Gunston Jones ar ddod yn Daid a Nain "heb fagu'n llwyr heb fagu'r wyr!"

Os nad ydych yn hoff o jeli a sosej rols, arhoswch yn y tŷ ar Fehefin 13eg oherwydd y dydd Sadwrn hwnnw fydd uchafbwynt yr Wyl a chan ein bod yn dathlu ein degfed penblwydd hefyd rydym wedi penderfynu cynnal Te Parti mawr ymhob Sir trwy'r wlad i holl blant y Mudiad. Son am wlad yn diferu o jeli a blancmange.

Sut bynnag, yr ydym ar drothwy digwyddiadau cyffrous yn ein hanes ac edrychwn ymlaen yn ffyddiog i'r degawd nesaf fod yr un mor llwyddiannus â'r un diwethaf ac y bydd holl siroedd Cymru yn frith o gylchoedd o dan adain Mudiad Ysgolion Meithrin.

Brian Jones,
Cyfarwyddwr y
Mudiad.

## YSGOL FEITHRIN YSTUM TAF :


Agorwyd Ysgol Feithrin Ystum Taf yn Neuadd Eglwys 'All Saints' ym mis Ionawr 1973, a phedwar o blant.

Mae'r graff yn esbonio fel mae'r ysgol wedi datblygu dros yr wyth mlynedd ddiwethaf.

Ers hydref 1980 mae'r cylch yn cael ei gynnal yn Neuadd Ieuenctid Ysgol Gyfun Glantaf.

Mae'r Ysgol Feithrin yn derbyn deunaw o blant, tri ar ddeg o'r rhain yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Rydyn ni yn ffodus iawn fod ein cylch mor agos i Ysgol Gyfun Glantaf, oherwydd fod presenoldeb yr ysgol gyfun yn calonogi rhieni i ganiatau eu plant i ddysgu Cymraeg fel ail iaith.



# Y GOLOFN FARDDOL
## gan Arfon

Nid wyf yn ymddiheuro o gwbl am gynnwys y gerdd rymus hon gan Gilbert Ruddock yn y golofn a hithau'n dymor y Pasg erbyn hyn. Bu hi am dri mis ar y gweill ganddo ond bodlonodd ei gollwng o'i law yn awr ac ystyriaf hi'n fraint cael ei chyhoeddi. Mae ei rhythmau'n siglo, mae'r llinellau cynganeddol yn canu fel clychau ynddi, ac yn fwy na dim mae yma fyfyrdod wedi ei fynegi'n loyw brydferth. Gwelodd y bardd ym mreuder addurniadau dathlu'r Nadolig freuder y ddynoliaeth hithau, a gweld yn yr union freuder hwnnw rymuster a sadrwydd y Tragwyddol.

BREUDER
Nadolig, 1980

Brudiwyd y breuder
cyn darfod ei ddyfod.
Deil yma o hyd
i'r byd ei adnabod.

Brodiwyd y breuder
dros lun y Nadolig -
ar dinsel y seren
a gwynder oenig
ein prysur nos,
yn sigliadau carolau'r archfarchnad,
mewn sigarau coronog,
drwy wen Santa Clos.
Mae'r breuder yn fydoedd bach sgleiniog, troellog,
yn gadwyni llathraidd ynghrog
rhwng wal a wal.
Mae'n gyfarchion ar gardiau,
yn enwau ar restrau-tro-nesa,
yn Nadolig Llawen na fydd ond Bore Da.
Dawnsia'n oleuadau enfysaidd gloywon,
sglefria ar lethrau llithrig danteithion.
Mae'n wres ym mhlygion y gwin,
ac yn hanfod i'r smotyn bach diflan gwyn
ynghanol gwacter y sgrin.

A welsom ni ef,
y breuder hwn,
a'i adnabod?
A welsom, a adnabuom
y breuder holl-bresennol sy'n newid dyn,
a'i gydnabod?

Bradwyd y breuder
gan freuder trist.
Ond rhown fawl i'r Tad diddan
am gael cyfle drwy'r cyfan
i weld breuder y baban -
y breuder sy'n gryfder ei Grist.

Gilbert Ruddock.




THEATR Y SHERMAN :

Yn ynstod mis Mai a mis Mehefin, bydd rhaglen fywiog ac amrywiol o weithgareddau Cymraeg yn y Sherman, yn cynnwys opera roc, drama a chomedi broffesiynnol, cyngerdd arbennig, a sioe i'r plant.

NIA BEN AUR, 10 Mai, 8 p.m.
yn y Brif Theatr.

Bydd Cwmni Drama Ysgol Gyfun Llanhari yn cyflwyno'r opera roc boblogaidd yma. Chwedl adnabyddus yw hon sy'n ymwneud ag anturiaethau carwriaethol Osian, o Erin i wlad y bythol-ifanc yn Nhir Na n'Og.

DINAS, 12 a 13 Mai, 7.30 p.m.
yn y Brif Theatr

Theatr Cymru yn cyflwyno comedi gan Emyr Humphries a Wil Sam Jones. Ffermdy a welodd ddyddiau gwell yw Dinas; ei pherchennog yw John Barig, hen lanc o Gymru, yn gwbl ddibynnol ar Ossie, y gwas. Try nifer o gymeriadau amrywiol o gwmpas Dinas, pob un a'i ddiddordeb ei hun yn yr hen le.

GWEU BABIS, 15 a 16 Mai, 8 p.m.
yn yr Arena

"Dwy eneth - dwy ddelwedd dra gwahanol. Ysgwn i beth fyddwch chi'n feddwl ohonyn nhw?" Rhan o'r gyfres Bag & Baggage, mae'r ddrama newydd hon wedi'i datblygu o syniad gwreiddiol Dwynwen Berry.

DAFYDD IWAN, 14 Mehefin, 8 p.m.
yn yr Arena

Ar daith drwy Gymru, mae Dafydd yn galw i'r Gad. Yn ei eiriau ei hun, "Testun llawer o'r ceneuon fydd cyflwr Cymru heddiw...Fydd hi ddim yn sioe fach neis-neis chwaith; mae'r dyddiau hynny wedi mynd heibio".

SIAMBALDRINS, 18 Mehefin, 1.30
19 Mehefin, 10.30
a 1.30
20 Mehefin, 11.00
yn y Brif Theatr

Un o freuddwydion mawr unrhyw blentyn yw cael bod yn arwr mewn ffilm. Dyma'n union sy'n digwydd i Ned pan ddaw Wil Warner-Meyer a chynnig y brif ran iddo yn ei ffilm 'Dracula'. Ysgrifenwyd gan Mari Gwilym, hwyl a sbri a chwerthin yw nodweddion y cynhyrchiad hwn gan Theatr Cymru i'r plant. Rieni'. Bydd perfformiad arbennig fore Sadwrn felly os nad yw eich plant yn mynd gyda'r ysgol, dyma'u cyfle i weld SIAMBALDRINS

# Y TO NEWYDD

YSGOL FEITHRIN LLANILLTUD FAWR

Ni fu erioed draddodiad Cymraeg cryf yn Llanilltud Fawr ac felly pleser yw nodi y bydd unarddeg o fabanod o'r dref yn dechrau ar eu haddysg llawn amser yn Ysgol Iolo Morganwg ar ol yr haf. Yn wir, mae cymaint o'r fro yn trafeilio rwan i'r Bontfaen fel y bydd cais yn cael ei wneud yn y dyfodol am sefydlu Ysgol Gynradd yn Llanilltud.
Ond cyn rhedeg, rhaid cerdded, ac mae pwyllgor Ysgol Feithrin Llanilltud yn sylweddoli pwysigrwydd cadarnhau dyfodol Ysgol Iolo cyn meddwl am estyn yr ymerodraeth. Heb y gwreiddyn ni all y goeden dyfu ac felly mae yn holl bwysig cyflenwi anghenion Ysgol Iolo cyn meddwl am ddatblygiad arall.

Trwy brawf a cham, digalondid a sbort, mae pwyllgor ein hysgol bach ni yn meddwl bod hawl ganddynt i siarad am rhyw fath o lwyddiant.

Sefydlwyd yr ysgol yn 1972 ar ol cael hyd i hen festri gyda llawn gwan a nenfwd gwanach. Chwarddodd pawb pan ddaeth Roger Jones i weithio ar yr ystafell yn gwisgo helmet ddiwydiannol ond ef oedd yn gwenu pan gwympodd llech drom ar ei ben.

Roedd y dechreuad yn amser main i'r ysgol ac ar un tro roedd y diddordeb mor wan yn y dref i daflu cwestiwn dros yr holl antur. Creodd y digalondid sefyllfa bigog ac yn araf collodd yr ysgol ei hymrwymiad i baratoi plant tuag at addysg ddwyieithog. Yn anffodus, ar ol penderfyniad gan y pwyllgor i agor drws yr ysgol i blant gyda rhieni heb ddim diddordeb o gwbwl mewn addysg ddwyieithog, ymddiswyddodd llawer o'r aelodau a oedd yn ffyddlon i'r gwaith.
Ac felly, am amser, heb bwyllgor cryf, doedd dim gwahaniaeth rhwng yr Ysgol Feithrin ag unrhyw grwp chwarae arall. Yr oedd y pwyllgor heb ddiddordeb yn yr iaith a doedd yr iaith ddim ar daith yn Llanilltud.
Ergydion caled oedd y datblygiadau hyn ond roedd y wers wedi suddo i mewn. Yn amlwg, yn Llanilltud, roedd angen mesurau cryf.
Ac felly, un noson, ar ol llawer o gyfarfodydd dichellgar daeth torf o bobl i'r cyfarfod blynyddol a phleidleisio i gael pwyllgor newydd.
Un o'r penderfyniadau cyntaf gan y pwyllgor newydd oedd gofyn am ymrwymiad oddi wrth y rhieni i yrru eu plant i Ysgol Iolo os oedd eu plant am ddefnyddio yr Ysgol Feithrin. Cytunodd pob mam a thad i'r rheol newydd hon.
Mae'r plant a'r rhieni yn ffodus o gael athrawes gysegredig yn Mrs. Lillian Thomas a'i helpwr dyfal, Mrs. Pritchard. Rydym yn ffodus hefyd gyda'n ffrindiau. Pobl fel Graham Prosser a fu farw mor drychinebus mewn damwain dramor. Cafodd yr ysgol £200 oddi wrth ei rieni er cof amdano.

Yn awr, mae brwydyr fawr arall ar y gorwel oherwydd mae Cyngor Sir De Morgannwg am werthu yr hen ysgol lle mae'r Ysgol Feithrin nawr yn cwrdd. Os oes rhywun a £28,000 yn sbar yn ei boced, peidiwch ag anghofio amdanom!

YSGOL FEITHRIN HEOL Y CRWYS

Dechreuwyd Ysgol Feithrin Heol y Crwys ym mis Medi 1972 gyda naw o blant a'r nifer yn codi i bedwar ar ddeg erbyn y Pasg 1973.

Dechreuwyd yr ysgol yma drwy frwdfrydedd Mr. Owen John Thomas a fu yn gwneud ymchwil yn ardal Cathays (wrth fynd o amgylch gan guro drysau) er mwyn dod o hyd i nifer o rieni a oedd a diddordeb mewn cael addysg i'w plant drwy gyfrwng y Cymraeg. Aeth ynghyd wedyn i chwilio am adeilad addas i gynnal y cylch. Cafodd gyfarfod gyda Swyddogion Capel y Crwys a chael caniatad i ddefnyddio'r adeilad a chael hefyd drwydded cynllunio gyda'r awdurdod lleol. Wedi cynnal dau gyfarfod cyhoeddus a llunio pwyllgor - Mr. Thomas ei hun yn Gadeirydd a Mrs. Elizabeth Griffiths yn Ysgrifennydd - roedd popeth yn barod at agoriad y Cylch.
Dechreuwyd ar y bore cynta hwnnw gyda dwy athrawes, sef Mrs. Mair Williams (a oedd wedi dysgu mewn Cylch Meithrin yng Nghaerffili) a Mrs. Glynne Jones.

Ers 1972 mae nifer o athrawesau wedi bod yn gysylltiedig a'r Cylch hwn. Bu Dilys Mildon yma cyn symud i Gylch Meithrin Llandaf. Roedd Eurwen Price yma am gyfnod o dair blynedd cyn symud gyda'i theulu i ardal y Drenewydd. Mae Rhun Jones bellach yn athrawes ym Mryntaf.

Yn awr, ers dwy flynedd bellach, mae'r Cylch dan ofal Gaynor Huws (roedd Adam ei mab gynt yn mynychu'r Cylch) a Megan Davies (bu dau o'i phlant yma - Wyn yn dechrau ar y bore cynta hwnnw ym Medi 1972 ac yn ddiweddarach, Nia).

Dros y blynyddoedd mae nifer y plant sy'n mynychu Ysgol Feithrin Heol y Crwys wedi cynyddu cryn dipyn. Yn awr mae gennym 27 o blant ar ein cofrestr ac mae 15 o'r rhain yn dechrau ym Mryntaf ym Medi 1981. Gobeithiwn i'r cynnydd barhau yn y dyfodol.


Y BONTFAEN :

Meddyliais y byddai'n syniad da i Hen Fenyw Fach Cydweli gael losin du traddodiadol o farced Llanelli i rifo deg am ddime yn y gyngerdd Gwyl Ddewi. Daeth Mawrth laf a'r mamau, tadau, mamgus a thadcus wedi ymgynnull a phob eitem yn mynd yn hwylus. Dyma Non yn rhifo'r losin du ar y ford a'r gweddill o'r plant yn canu Hen Fenyw Fach Cydweli ar dop eu lleisiau. Ar y nodyn ola daeth Siwan o'r rhes gefn at y ford yn llygadu'r losin du ac ar goedd pawb yn gofyn "Can we have one of those losins to eat now?" Roeddwn wedi bod mor hurt a rhoi losin yr un i'r plant yn y rehersal olaf! Bu rhaid imi addo yn gloi ynghanol cyngerdd Gwyl Ddewi y byddai pob plentyn yn cael losin du cyn mynd adre er mwyn mynd ymlaen a'r rhaglen. Rhaid imi gofio y tro nesa i roi eitem Menyw Fach Cydweli ar ddiwedd y gyngerdd fel bod pawb yn gallu cnoi losin du fel DIWEDDGLO.

Bydd fy nheulu yn dwli ar glywed straeon doniol y plant yn yr Ysgol Feithrin ac yn edrych ymlaen at gwrdd y plant mwyaf enwog am eu drygioni. Galwodd fy ngwr i mewn un bore a dyma fi'n cyflwyno pob plentyn trwy ofyn y cwestiwn "Beth yw eich enw chi?" fel bod pob un yn cael y cyfle o gyflwyno'i hun. Ar ol dwsin o atebion dyma fy ngwr yn dweud "Da iawn". Dyma ogleddwr bach disglair yn dod ymlaen ata'i a sibrwd yn uchel tu ol i'w law "Sgwn i pwy dy o!"

Roedd un crwtyn yn cwyno bod gweddill y dosbarth yn i bwno ond roedden i yn gwybod yn iawn mai fel arall oedd hi a bod y plant eraill yn i gymoni. "Bydd di'n neis iddyn nhw a bydda'n nhw i gyd eisiau chwarae gyda ti a bod yn ffrind i ti" oedd fy nghyngor. Fe safodd yn llonydd a meddwl am eiliad neu ddwy ac aeth ymlaen at groten fach ddigon distaw oedd wrth law, a'i thrwyn yn rhedeg ac yn ei chusanu'n dyner a chynnig yn ddigon annwyl i sychu'i thrwyn a hancen ei hun. Roeddwn yn gwybod y funud honno y byddai'r crwtyn na a fi yn ffrindiau mawr!.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 13



**Ar Draws:**

9. Y gamp uchaf yn y flwyddyn gyntaf o Oed Crist, ar ddisg neu ar dap (9)
10. Yr oedd hon yn perthyn i Ned Puw yn ol yr hen alaw (5)
11. A yw un o'r anifeiliaid ifainc hyn yn perthyn i'r Arglwydd (7)
12. Gorffenedd ar wyneb y pren, ac nid ar fin Sara (7)
13. Mae'n amheus a yw'r stori hon yn wir (5)
14. Wedi ei lunio gan law gelfydd gref Dic ei hun (9)
16. Swn y dyn ynfyd dan grochan (10,5)
19. Nifer o nofelau gan T.R.H. oedd ar ol y wal fach a ddymchwelwyd? (9)
21. Cromen liwgar (5)
22. Yr hyn a wnaf cyn cwnnu bob bore (7)
23. "....... moliant ar enwau'r miloedd". (7)
24. Bylchu (5)
25. Mae hon yn rhedeg bob cam o Bumlumon i Gasgwent (2,4,3)

**I Lawr:**

1. Un gradd yn is na'r Theophilus y cyflwynodd Luc ei efengyl iddo (10)
2. Y merched ifainc o'r De(1,7)
3. Mae hwn yn symud o ganol cartre i gleifion (6)
4. Fe all hon fod yn gron heb fod ar ddisg (4)
5. Difaodd a her, ond, pan ddaeth ato ei hun, yr oedd yn wir flin ganddo (10)
6. Swn yn y nos! (8)
7. Cantorion y Buarth (o'r Coleg gynt) (6)
8. Duwies sy'n rhedeg trwy Rydychen (4)
14. Ai timau o "gerddwyr" yw rhain, sy'n gwneud pob symudiad ar ei heistedd? (10)
15. Gwydd estron sy'n gwneud y polisi gorau, medde nhw (10)
17. Canlyniad dinistriol a ddaw o frolio Doethur mewn Diwinyddiaeth (8)
18. Gwneud gosodiad eto (8)
20. Trychindeb a ddigwyddodd wrth drefnu naw daff-odil; collwyd 549 ohonynt, a dim ohonynt (6)
21. Ymbil a wna un ar y Loire (6)
22. Yn ddiamau fe ddaw ymhen tridiau (4)
23. "Hysbys y dengys y dyn
O ba radd y bo'i wreiddyn" (4)

---

Y GYSTADLEUAETH I RAI DAN 18 OED (CROESAIR Y DINESYDD RHIF 12)

Cafwyd amryw o geisiadau cywir. Y cyntaf o'r fasged oedd eiddo Llinos Angharad, sy'n rhoi ei chyfeiriad fel 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd. Mae tocyn record gwerth £5 ar ei ffordd iddi.

---

## Y CALENDR

__Mai__

2, Cyngerdd yng Nghapel Peniwel, Rhymni, 7 o'r gloch gyda Iwan Guy, Eirlys Britton, Cor Meibion Brenhinol Cymraeg Treorci, Parti Llwchwr, a rhai o ddisgyblion yr ysgol. Tocynnau, £1 (oedolion); 50c (plant) oddi wrth y Parch Teifi Ebenezer, 26 Waun Goch District, Beaufort, Glyn Ebwy. Yr elw at elusennau lleol.

8, Ysgol Llanhari yn cyflwyno NIA BEN AUR yn NEUADD YR YSGOL am 7.30 p.m. Mynediad £1.50 (oedolion); 50c (plant)

10, Theatr y Sherman, NIA BEN AUR, Ysgol Llanhari, 8 o'r gloch. Mynediad, £1.80 (oedolion). Gostyngiad arferol i blant a phensiynwyr.

16, Neuadd yr Adran Gerdd, Corbett Rd., Cyngerdd gan Gor Philharmonic Caerdydd. Arweinydd: Alun Guy.

MEHEFIN:

27: Ffair Haf Glantaf

GORFFENNAF:

18 - 21, Y GYNGRES GELTAIDD yn Lannion, Llydaw (Ysgrifenner at Kendalc'h Kectiek, Centre Culturel Jean Savidan, 22300 Lannion, Llydaw/Breizh/Brittany/Bretagne.

HYDREF: Cyngerdd yn Neuadd y Ddinas o dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun.

---

Cafwyd atebion cywir hefyd gan: Eirlys (Trelai); Iolo Wyn (Y Mynydd Bychan), Sioned (Caerffili), M.E.D. (Llandaf), Dafydd W. (Y Rhath), Yr Hen Fugail (Cyncoed), Beti Wyn (Rhiwbeina) a Gareth (Pontypridd)

Wele'r datrysiad cywir:

__Ar Draws__: 1. Anghytun; 2.Pendant; 9. (ynghyd a 5 i lawr) Ymborthi ar sylwedd pur y nef; 10. Iard; 11. Dianc; 12. Myfi; 15.Dinistr; 16. Fynwent; 17. Daionus; 19. Tir Iarll; 21. Yngan; 22. Dienw; 23. Y Rhath; 26. Gogledd a Deheudir; 27. Gochelyd; 28. Dyneddon.

__I Lawr__: 1. Atyniad; 2. Heb yr un ddimai goch; 3. Tarth; 4. Neithiwr; 5. (gweler 9 i lawr); 6. Nwyf; 7. A rhwd yw ei anrhydedd; 8. Toddaist; 13. Ysant; 14. Anfri; 17. Diysgog; 18. Stiward; 19. Tynheid; 20. Llythyren; 24. Lleol; 25. Cefn


Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.